Home Office

Y Swyddfa Gartref

Pecyn E-ddysgu PREVENT
Fersiwn Ysgolion a Cholegau
Drafft y Sgript Lawn DERFYNOL
6ed Ebrill 2016

SGRÎN 1:

RYDYCH CHI WEDI CYRCHU'R HYFFORDDIANT E-DDYSGU AR PREVENT

Mae hwn yn cynnig cyflwyniad i'r ddyletswydd, ac yn esbonio sut mae'n anelu at ddiogelu pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu radicaleiddio i gefnogi terfysgaeth neu fynd yn derfysgwyr eu hunain.

Mae dolen i'r cyfarwyddyd i'r ddyletswydd Prevent ar gael ar ddiwedd yr e-ddysgu hwn.

Mae hwn yn hyfforddiant rhagarweiniol. Bydd yn darparu sylfaen bwysig i ddatblygu gwybodaeth bellach arni ynghylch risgiau radicaleiddio a'r rôl y gallwch chi ei chwarae o ran cefnogi'r rhai hynny sydd mewn perygl.

Mae'r hyfforddiant hwn yn trafod pob math o derfysgaeth ac eithafiaeth ddi-drais, gan gynnwys eithafiaeth Islamaidd ac eithafiaeth yr asgell de bell sy'n bygwth y DU.

Mae'r e-ddysgu wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth EM yn dilyn ymgynghori ag amrediad o unigolion a sefydliadau. Mae wedi elwa o adborth gan athrawon, swyddogion awdurdod lleol, grwpiau seiliedig yn y gymuned, gweithwyr ieuenctid a llawer o bobl eraill.

Gellir gweld dolenni i wybodaeth bellach ar ddiwedd yr hyfforddiant hwn.

DEFNYDDWYR NEWYDD, cliciwch barhau
DEFNYDDWYR SY'N DYCHWELYD YN UNIG – cliciwch yma i barhau ag hyfforddiant e-ddysgu

SGRÎN 2:

Dewiswch eich rhanbarth yn y DU

Dwyrain Lloegr
De-orllewin Lloegr
De-ddwyrain Lloegr
Llundain
Dwyrain Canolbarth Lloegr
Swydd Efrog a Humber
Gogledd-orllewin Lloegr
Gogledd-ddwyrain Lloegr
Cymru
Yr Alban
Gorllewin Canolbarth Lloegr
Y tu allan i'r DU (rhowch wybod inni ym mha wlad rydych chi)

©Tenboss Ltd. 2016

Dewiswch eich sector

AWDURDOD LLEOL:
Corfforaethol a Chyllid
Gwasanaethau i Blant
Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Gwasanaethau Amgylcheddol
Cynllunio
Llyfrgelloedd
Diwylliant
Tai ac Adfywio
Addysg i Oedolion
Diogelwch Cymunedol
Arall

ADDYSG:

YSGOLION:
Athro ysgol gynradd
Athro ysgol uwchradd
Cynorthwywyr addysgu
Staff gweinyddol neu staff eraill nad ydynt yn addysgu
Arweinyddiaeth ysgol
Llywodraethwyr
Darparwyr y blynyddoedd cynnar (arweinyddiaeth)
Darparwyr y blynyddoedd cynnar (cymorth)
Cartrefi plant
Ysgolion arbennig

Sefydliadau Addysg Uwch:
Pennaeth gwasanaethau i fyfyrwyr
Is-ganghellor
Cadeirydd cyngor
Uwch-weinyddiaeth y brifysgol
Penaethiaid diogeledd
Cyfreithiol/llywodraethu

©Tenboss Ltd. 2016

YR ADRAN IECHYD

TUDALEN UN:
Iechyd

TUDALEN DWY:
Gofal Sylfaenol
Iechyd Meddwl
Anableddau Dysgu
Gwasanaethau Aciwt GIG – Iechyd Corfforol
Gwasanaethau Cymunedol GIG - Iechyd Corfforol
Annibynnol
Y Sector Gwirfoddol
Iechyd a Chyfiawnder
Y Gwasanaeth Ambiwlans

TUDALEN TAIR:
Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol
Gwasanaethau Clinigol
Gweinyddol a Chlerigol
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol
Staff Ystadau ac Ategol
Meddygol a Deintyddol
Nyrsio a bydwreigiaeth Wedi'u Cofrestru
Myfyrwyr

CARCHARDAI:

Corff Llywodraethu
Cyfarwyddwr/Rheolwr
Swyddog Carchar
Gweinyddu
Gwasanaethau Cymorth
Gofal Bugeiliol
Arall (testun rhydd)

RHEOLI TROSEDDWYR:

TUDALEN DWY
Prawf NPS
Prawf CRC

©Tenboss Ltd. 2016

TUDALEN TAIR:

Prawf NPS
Cyfarwyddwr/Rheolwr
Swyddog Prawf
Gweinyddwr Achos
Arall (testun rhydd)

Prawf CRC
Cyfarwyddwr/Rheolwr
Swyddog Prawf
Canolfan Ymbresenoli
Gwasanaethau corfforaethol
TG
Arall (testun rhydd)

©Tenboss Ltd. 2016

SGRÎN 3:

CROESO

Bydd y pecyn dysgu hwn yn cymryd oddeutu 45 munud i'w gwblhau.
I gael y mwyaf o'r amser hwnnw, sicrhewch na chewch eich aflonyddu.
Rydyn ni wedi ceisio gwneud yr hyfforddiant hwn yn ddiddorol; mae'n defnyddio cymysgedd rhyngweithiol o ymarferion fideo, papur, a rhai sy'n seiliedig ar y sgrîn.
Bydd arnoch angen pen ysgrifennu a phapur.

Efallai y byddwch chi eisiau defnyddio uchelseinyddion/clustffonau i wrando ar y cynnwys.

Os na allwch chi ddefnyddio sain, cliciwch ar y botwm isod i weithredu'r capsiynau is-deitlau.

Mae'r sesiwn hyfforddi hwn yn fwyaf effeithiol os yw'n cael ei wneud mewn un eisteddiad, fodd bynnag os oes angen ichi oedi neu gadw yn ystod y sesiwn, cliciwch y botwm II isod.

Mae cyfle i roi adborth ar ddiwedd y sesiwn.

Bydd y pecyn dysgu hwn yn dechrau pan gliciwch 'parhau'.

SGRÎN 4:
RHAN UN: GWIRIAD AR LEFEL WYBODAETH

Felly rydyn ni am wybod sut i gyflwyno'r sesiwn hwn, sut fyddech chi'n graddio'ch gwybodaeth a dealltwriaeth o radicaleiddio?

Diolch. Bydd yn ddiddorol i asesu hynny eto ar ddiwedd y sesiwn hwn.
Cliciwch barhau i symud ymlaen.

SGRÎN 5:
RHAN UN: GWIRIAD AR HWYLIAU

Rydyn ni eisiau i'r pecyn e-ddysgu hwn fod yn ddefnyddiol a hefyd iddo'ch ysbrydoli.
I helpu â hynny, byddwch yn onest a dewis pa "hwyliau" isod sy'n cynrychioli'ch hwyliau eich hunan wrth fynd i mewn i'r sesiwn hwn:

- Dw i'n Hapus i'w Wneud e
- Dw i'n Eithaf Amheus
- Mae gen i Bethau Gwell i'w Gwneud
- Alla i ddim gweld beth sydd gan hyn i ymwneud â fi
- Mae'n rhan o'm dyletswydd

©Tenboss Ltd. 2016

Dw i'n hapus i'w wneud e	**Mae hynny'n galonogol iawn!** Ers 2011 mae Prevent wedi gweithio ar draws y sector cyhoeddus a chymunedau i gefnogi unigolion sy'n agored i niwed. Gallwn ni wneud hyn yn effeithiol dim ond â chymorth pobl fel chi. Mae'n tynnu ar y sgiliau a'r rhwydweithiau sydd gennych chi a'ch cydweithwyr eisoes oherwydd eich cyfrifoldebau diogelu presennol. Mae e-ddysgu'n golygu y gallwn ni gyrraedd mwy o bobl, ac rydyn ni wedi gweithio i wneud yr hyfforddiant rhagarweiniol hwn yn ddiddorol. Bydd yn defnyddio cymysgedd rhyngweithiol o ymarferion fideo, papur, a rhai sy'n seiliedig ar y sgrin.. Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n ei fwynhau. Cliciwch barhau i symud ymlaen.
Dw i'n amheus	**Mae'n sicr bod gennych rôl bwysig i'w chwarae** Mae gan sefydliadau a gwmpasir gan ddyletswydd Prevent gyfrifoldeb i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae'r hyfforddiant rhagarweiniol hwn yn darparu ymwybyddiaeth o radicaleiddio a dealltwriaeth o'r hyn y gallwch chi ei wneud yn eich gwaith dyddiol i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag peryglon radicaleiddio – i raddau helaeth yn yr un ffyrdd ag y gallech chi eu diogelu rhag risgiau eraill, megis cam-drin corfforol. Cliciwch barhau i symud ymlaen.
Mae gen i bethau gwell i'w gwneud	**Mae gennym i gyd rôl i'w chwarae** Yn anffodus, yn aml mae'n anodd gweld budd ychydig o hyfforddiant cyn ichi ei gwblhau. Rydyn ni'n deall y pwysau ar eich amser ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn eich bod yn cymryd rhan. Mae gan sefydliadau a gwmpasir gan dyletswydd Prevent gyfrifoldeb i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae'r hyfforddiant rhagarweiniol hwn yn darparu ymwybyddiaeth o radicaleiddio a dealltwriaeth o'r hyn y gallwch chi ei wneud yn eich gwaith dyddiol i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag peryglon radicaleiddio – i raddau helaeth yn yr un ffyrdd ag y gallech chi eu diogelu rhag risgiau eraill, megis cam-drin corfforol. Cliciwch barhau i symud ymlaen.
Alla i ddim	**Mae hwnnw'n ymateb perffaith resymol**

©Tenboss Ltd. 2016

gweld beth sydd gan hyn i ymwneud â fi	Wedi'r cyfan mae hwn yn ymarfer i godi ymwybyddiaeth, felly byddai'n normal ichi fod yn ansicr ynghylch pam bod materion ynglŷn â therfysgaeth a radicaleiddio'n berthnasol i chi. Mae gan sefydliadau a gwmpasir gan ddyletswydd Prevent gyfrifoldeb i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae'r hyfforddiant rhagarweiniol hwn yn darparu ymwybyddiaeth o radicaleiddio a dealltwriaeth o'r hyn y gallwch chi ei wneud yn eich gwaith dyddiol i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag peryglon radicaleiddio – i raddau helaeth yn yr un ffyrdd ag y gallech chi eu diogelu rhag risgiau eraill, megis cam-drin corfforol. Cliciwch barhau i symud ymlaen.
Mae'n rhan o'm dyletswydd	**Mae hynny'n gywir** Fodd bynnag, fydd Prevent ddim yn gweithio gystal os byddwn ni'n cymryd arnon ni ein bod yn gweithredu'n unig. Byddwch chi'n gweld bod yr hyn rydych chi eisoes yn ei wneud ynghylch diogelu'n berthnasol i'r ddyletswydd Prevent, felly dylai gwneud gwahaniaeth yn y gofod hwn fod yn eithaf syml. Mae'r hyfforddiant rhagarweiniol hwn yn darparu ymwybyddiaeth o radicaleiddio a dealltwriaeth o'r hyn y gallwch chi ei wneud yn eich gwaith dyddiol i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag peryglon radicaleiddio – i raddau helaeth yn yr un ffyrdd ag y gallech chi eu diogelu rhag risgiau eraill, megis cam-drin corfforol. Cliciwch barhau i symud ymlaen.

©Tenboss Ltd. 2016

SGRÎN 6:
RHAN UN: BETH MAE TERFYSGAETH YN EI OLYGU I CHI?

Gadewch inni gychwyn â therfysgaeth ei hunan.

Edrychwch ar y chwe delwedd isod – cliciwch ar ddwy sy'n cynrychioli terfysgaeth gorau yn eich barn chi.

DELWEDD 1: Ymosodiad Terfysg	Dyna ddelwedd mae llawer o bobl yn ei dewis. Mae hon yn dangos canlyniadau ymosodiad terfysg ei hunan, felly nid yw'n cynrychioli'r cam o derfysgaeth lle byddwn ni'n gweithio heddiw.
DELWEDD 2: Ymladdwr Rhyddid Amhenodol	Dyna ddelwedd mae llawer o bobl yn ei dewis. Er y gallai delwedd o ddyn arfog gynrychioli ymddangosiad o derfysgaeth, nid yw'n cynrychioli'r cam o derfysgaeth lle byddwn ni'n gweithio heddiw.
DELWEDD 3: Graffiti sy'n hiliol elyniaethus	Dyna ddelwedd ddiddorol i'w dewis – nid yr un mae'r mwyafrif o bobl yn ei dewis. Gall radicaleiddio dynnu ar bob math o eithafiaeth, gan gynnwys y bygythiad gan y Dde Bell. O ganlyniad, gallai'r fath graffiti hiliol gelyniaethus gynrychioli gweithredoedd rhywun sy'n derbyn y fath ideolegau, ond byddai angen inni sefydlu'r cyd-destun.
DELWEDD 4: Camddefnyddio'r Rhyngrwyd	Dyna ddelwedd ddiddorol i'w dewis – nid yr un mae'r mwyafrif o bobl yn ei dewis. Gall pobl gael eu paratoi ar-lein gan radicaleiddwyr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau amrywiol ar-lein. Felly, gallai rhywun sy'n mynd ar-lein i gyrchu deunydd De Bell, fel y gallwn ni ei weld yma, gynrychioli symudiad tuag at gefnogi terfysgaeth, ond byddai angen inni wybod rhagor ynghylch y cyd-destun am edrych ar y deunydd hwn.
DELWEDD 5: Dylanwad/ Radicaleiddio	Mae hon yn ddelwedd eithaf amwys. Fel y byddwn ni'n ei archwilio wedyn, gall radicaleiddio ddigwydd wyneb yn wyneb a gall ymddangos fel rhywbeth diniwed. Felly, gallai hyn gynrychioli'r gofod lle mae unigolyn hyglwyf mewn perygl, ond byddai angen inni wybod rhagor am y cyd-destun i wir ddeall yr hyn sy'n cael ei ddangos.
DELWEDD 6: Dosbarthu taflenni	Does dim llawer o bobl yn dewis y ddelwedd honno Fodd bynnag, mae grwpiau Eithafol yn defnyddio amrediad o foddau i hyrwyddo eu hideolegau. Heblaw am y rhyngrwyd gallen nhw ddefnyddio moddau mwy traddodiadol hefyd i gael eu neges allan, er enghraifft dosbarthu taflenni sy'n hyrwyddo casineb a gwahanu. Fodd bynnag, mae angen ystyried unrhyw sefyllfa yn y cyd-destun cywir, llawn.

Gadewch inni wylio fideo byr sy'n esbonio hynny'n fanylach.
Cliciwch barhau.

©Tenboss Ltd. 2016

SGRÎN 7:
FIDEO 1 – CYFLWYNIAD I PREVENT:

Pam bod angen dewis dwy ddelwedd?

Oherwydd na fyddai un yn rhoi'r darlun llawn...

O wybod y cyd-destun cywir, gall pob un ddelwedd cynrychioli terfysgaeth; oherwydd nad yw terfysgaeth - ac mae hyn yn arbennig o bwysig ynghylch yr hyfforddiant hwn - yn golygu'r ymosodiad yn unig.

Mae'r ymosodiad fel pigyn y rhewfryn; y rhan uwchben yr wyneb yr ydym yn ei weld. Ond yn union fel y pigyn hwnnw, fe'i cefnogir gan grynswth mwy oddi dano: Gweithgarwch cudd sy'n adeiladu ac yn adeiladu, gan arwain at drais.

Gallai hynny gynnwys ymddygiad troseddol megis dod o hyd i rywle i'w dargedu; cael arfau; codi arian...

Ond gwreiddiau y rhan fwyaf yr achosion o derfysgaeth yw dod o hyd i, yn wir recriwtio - rhywun i gynnal neu gefnogi'r erchyllwaith, gan fanteisio ar ymddiriedaeth y person hwnnw ac yn eu radicaleiddio.

Trwy fwydo ideolegau iddynt sy'n gwrthdaro â'r gwerthoedd yr ydym yn rhannu; ideolegau sy'n hyrwyddo anoddefgarwch; sy'n fawrygu trais; ac yn torri'r gyfraith.

Gallai'r ideolegau hyn honni bod ganddynt farnau gwleidyddol neu'n gwyrdroi crefydd er mwyn tynnu bobl hyglwyf i'w cylch. Ond mae hyn oll yn fwgwd yn unig: Mae hyn yn ymwneud â throseddu.

Gall bobl troseddi am arian...

Ond gall hefyd gyflawni trosedd gan eu bod am greu argraff ar eu cyfoedion; mynd i'r afael ag achwyniad; neu i fodloni awydd am gyffro neu berthyn.

Mae radicaleiddwyr yn gwybod hyn, ac maent yn defnyddio'r un cymhellion er mwyn twyllo pobl i gyflawni gweithredoedd terfysgol.

Maent yn chwilio am rywun sydd, am sawl rheswm, yn teimlo'n siomedig; dig; neu sy'n chwilio am atebion, neu newid – cyfle i'w hailddyfeisio eu hunain.

Maent yn ymgyfellio â nhw gan honi y byddent yn rhoi'r cyfle, pwrpas neu wobr honno iddynt.

Maent yn defnyddio'r holl angerdd a photensial maent yn eu gweld yn y person hyglwyf hwnnw ac yn eu gwthio tuag at gasineb a thrais.

Ond gallwn ni atal hynny. Gallwn ni atal pobl rhag cael eu radicaleiddio.

©Tenboss Ltd. 2016

Os ydych chi neu eich cydweithwyr yn nodi pan fydd rhywun yn teimlo'n unig neu ar goll, gall gweithwyr proffesiynol a theuluoedd gydweithio i wrando ar y person hwnnw a chynnig atebion iddynt; gan eu hatal rhag teimlo'r fath synnwyr o rwystredigaeth neu anghyfiawnder eu bod yn ystyried y syniad o achosi niwed i'w hunain neu eraill.

Ac yn aml mae mor syml â chael y person cywir i gael sgwrs gyda nhw, gan awgrymu safbwynt gwahanol. Trwy eu galluogi i archwilio'n eu teimladau o ddioddef cwyn neu anghyfiawnder, pa fath bynnag o eithafiaeth maent yn cael eu denu ato.

Ac mae hyn yn digwydd ymhell i lawr ar waelod y rhewfryn.

Ble mae rhaglen Prevent yn gweithredu; yn gweithio i "atal pobl rhag cefnogi terfysgaeth neu fynd yn derfysgwyr eu hunain;" a ble gallwch wneud gwahaniaeth enfawr o ran diogelu'r bobl hynny a allent gael eu targedu i droseddu yn y ffordd ofnadwy hwn yn y pen draw.

SGRÎN 8:
YMDDYGIADAU SY'N PERI PRYDER

Nawr byddwn ni'n dechrau gwneud hyn yn fwy perthnasol i chi.
Ystyriwch pwy rydych wedi cael yr amser cyswllt mwyaf gyda nhw yn eich sefyllfa addysgol arbennig – os yn ddisgyblion, myfyrwyr neu gydweithwyr.
Ysgrifennwch pwy yw hwnnw/honno.

Nawr meddyliwch am amser pan oedd un ohonynt wedi siarad yn gyfrinachol â chi'n ddiweddar, neu wedi gofyn am eich help.
Neu pan oeddech yn poeni amdanynt.
Beth wnaethon nhw ei wneud neu ddweud oedd efallai'n peri ichi boeni am eu lles?

Cliciwch barhau

DEWISWCH YMDDYGIADAU GRŴP

O gadw hynny ar gof, nawr rydym yn mynd i ganolbwyntio ar newidiadau o ran ymddygiad mewn rhywun a allai beri pryder ichi.

Peidiwch â phoeni am yr hyn a allai yrru'r ymddygiadau hynny, mae ond angen ichi edrych ar y geiriau yn yr ymarfer a meddwl am y rhai y byddech yn disgwyl sylwi arnynt, neu efallai eich bod wedi sylwi arnynt yn y gorffennol.

Pa dri yw'r mwyaf tebygol yn eich barn chi?

Cliciwch ar air dethol a'i lusgo i'r blwch ar y sgrîn naill ai yn y safle 1,2, neu 3.

Mae eich amser (1 mun) yn dechrau pan gliciwch y blwch amseru uchod.

©Tenboss Ltd. 2016

MYND YN AMHARCHUS	GOFYN CWESTIYNAU AMHRIODOL	ABSENOLIAETH	MYND AR WAHÂN NEU'N DAWEDOG	ARWYDDION STRAEN
WEDI'I YNYSU O FFRINDIAU	LLEFERYDD WEDI'I SGRIPTIO	CRÏO	MYND YN DDIG YN GYFLYM	DEFNYDD AFIACH O'R RHYNGRWYD

RHAN TRI:
DEWISWCH YMDDYGIADAU GRŴP

Efallai na fydd yr amgylchiadau sy'n achosi'r ymddygiadau hyn yn gysylltiedig â phroblem ynghylch diogelu.
Ac ar eu hunain, efallai na fyddant yn peri pryder.

Y ffordd i gadarnhau hynny yw cael golwg ehangach, a chael gwybodaeth ynghylch y cyd-destun.
Gadewch inni edrych yn fanylach ar y tri newid mewn ymddygiad a ddewisoch:

BETH SY'N ACHOSI'R YMDDYGIADAU HYNNY?

Yn eich barn chi, beth sy'n fwyaf tebygol o yrru'r newidiadau hynny mewn ymddygiad?
Isod mae 12 rheswm posibl a awgrymwyd gan weithwyr proffesiynol ar y rheng flaen sydd wedi ymgysylltu ag hyfforddiant Prevent.

Cliciwch ar y rhai sydd wedi dod i'ch sylw chi hefyd yn eich profiad proffesiynol.

Pan ydych wedi dewis un neu ragor, cliciwch i barhau.

COLLED	**BWLIO**
TRYBLITH YN Y TEULU	**RADICALEIDDIO**
PWYSAU CYFOEDION/TEULU	**CYFFURIAU AC ALCOHOL**
HUNAN-BARCH ISEL	**CAMDRINIAETH RYWIOL**
BLAENLENCYNDOD	**AELODAETH GANG**
PWYSAU ARHOLIADAU/GWAITH	**GWARTHNOD A GWAHANIAETHU**

BETH SY'N ACHOSI'R YMDDYGIADAU HYNNY

©Tenboss Ltd. 2016

OS NA DDEWISWYD RADICALEIDDIO	**Radicaleiddio oedd un o'r 12 gyrrwr y gallech wedi'u dewis.** Wrth gwrs, mae'n llawer llai tebygol o fod yn yrrwr ynghylch newidiadau mewn ymddygiad nag er enghraifft, bwlio, pwysau cyfoedion, neu gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Mae'r niferoedd o'r rhai hynny mewn perygl yn gymharol fach yn unig. Fodd bynnag; mae'r perygl yno, ac mae ei ganlyniadau posibl yn golygu na allwn ni anwybyddu'r posibilrwydd - ta waeth pa mor annhebygol mae ef. Os ydych yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall ddigwydd, mae mwy o gyfle y byddech yn gallu sylwi pan yw rhywun mewn perygl. Mae hynny oherwydd, mewn rhai achosion, y gallai radicaleiddio achosi'r newidiadau trafferthus ichi eu hamlygu'n gynharach. Felly gadewch inni ddeall ychydig rhagor am y broses o radicaleiddio, a sut dylai'r ymateb cywir, cymesur ymddangos. Cliciwch i barhau.
OS DEWISWYD RADICALEIDDIO	**Dewisoch Radicaleiddio.** Gallai hynny olygu eich bod wedi cael profiad o hyn yn digwydd i unrhyw un o'r rhai hynny rydych wedi cael yr amser cyswllt mwyaf â nhw yn eich sefyllfa addysgol arbennig. Er bod y perygl o radicaleiddio'n fach, mae'n bwysig bod y rhai hynny sy'n gyfrifol o dan y cyfrifoldeb Prevent fel chi eich hunan yn ymwybodol o'r broses, a sut mae'n ymddangos. Felly nawr rydym yn mynd i gael deall ychydig rhagor amdano, a'r hyn y gallwch chi a'ch cydweithwyr ei wneud i ddechrau'r ymateb cywir, priodol. Cliciwch i barhau.

SGRÎN 9:
RADICALEIDDIO

Nawr byddwn ni'n gwneud ymarfer sy'n ystyried yr emosiynau a gamddefnyddir yn y broses radicaleiddio, a allai helpu i esbonio pam bod pobl yn cael eu bod yn cael eu tynnu tuag at derfysgaeth.

Meddyliwch am rywun o'ch plentyndod, athro efallai, a gafodd effaith bositif arnoch. Efallai trwy amser anodd neu emosiynol yn eich ieuenctid hyd yn oed.

Ar eich darn o bapur, ysgrifennwch eu henw.

Nawr, ysgrifennwch dri pheth rydych yn cofio iddynt eu gwneud neu ddweud a'ch helpodd mewn gwirionedd.

©Tenboss Ltd. 2016

Isod mae rhestr o ymadroddion cyffredin gan bobl sydd wedi'u troi i ffwrdd o'r broses radicaleiddio wrth siarad am y rhai hynny a geisiodd eu radicaleiddio.

Er gwaethaf yr ysgogiadau gwahanol iawn, a yw unrhyw rai o'r dyfyniadau hyn yn debyg i'r rhai rydych wedi'u hysgrifennu?

Roeddwn i'n teimlo'n arbennig	Roeddwn i'n teimlo y gallwn i wneud rhywbeth cyffrous	Gwnaethon nhw imi deimlo bod rhywun yn fy ngharu i	Roeddent yn fy neall i fel nad oedd unrhyw un arall wedi'i wneud o'r blaen	Gallwn i siarad â nhw'n agored
Roeddent yn gwrando arna i	Roeddent yn fy nhrin i fel oedolyn	Roeddent yn fy annog i	Rhoddon nhw hyder imi	Am y tro cyntaf, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n perthyn

----

Os felly mae hynny'n golygu eich bod yn deall sut mae radicaleiddiwr yn gweithio.
Rydym i gyd yn deall. Mae fel unrhyw berthynas lle mae un person yn cael gafael ar feddwl rhywun arall – os yw eu hysgogiadau'n dda neu'n ddrwg.

Bydd fideo'n esbonio hyn yn fanylach.

SGRÎN 10:
FIDEO 2: RADICALEIDDIO

LLAIS DROSODD

Gallai ymddangos yn rhyfedd y gallai rhywun sy'n ceisio radicaleiddio person i gyflawni trais godi'r un emosiynau rydym yn eu teimlo pan yw rhywun wedi ein helpu neu ein hannog.

Ond mae emosiynau'n rymus; a gallant ein gorfodi i wneud pethau drwg heblaw am dda.

Mae radicaleiddwyr yn gwybod hynny – ac felly maent yn chwilio am bobl sydd yn bosib i'w dylanwadu.

MANWAR ALI

Maent yn chwilio am bobl sydd angen y naill beth neu'r llall. Yn bennaf hunaniaeth - gwerthfawrogiad, cariad a'r teimlad bod eraill yn eu hangen. Mae'r person hwnnw'n dramgwyddedig, dig, rhwystredig, efallai'n ddryslyd neu ar goll.

KELLY SIMCOCK

Gall y teimladau hyn deillio o ddigwyddiad trawmatig, digwyddiad sydd efallai wedi digwydd yn gynnar yn eu plentyndod. Gall fod yn rhywbeth sy'n digwydd o ran eu teulu; anhapusrwydd. Efallai nad ydynt yn ffitio i mewn fel rhan o grwpiau eraill gan eu bod wedi'u cau allan. Efallai mai'r gwrthwyneb sy'n wir, hynny yw, nad ydynt yn eu gweld eu hunain fel rhywun sy'n gallu ffitio i mewn i'r grŵp hwnnw.

©Tenboss Ltd. 2016

Mewn rhai achosion, gallai fod yn bryder dilys a go iawn i eraill. Yn ddiweddar rydym wedi gweld pobl ifanc yn cael eu tynnu'n arbennig tuag at leoedd fel Irac a Syria, ac felly am resymau da iawn. Mae'n bosib eu bod nhw am ddechrau gwrando ar y rheini hynny sy'n dweud "ie, rydych chi ar y trywydd iawn, gallech chi hefyd ddod yn rhan o rywbeth, dod yn rhan o newid ehangach a chwarae rôl ystyrlon gyda hyn oll".

MANWAR ALI

Felly byddai'r recriwtiwr yn manteisio ar ddiffyg cysylltiad person a pheri iddo ddatgysylltu'n fwy hyd yn oed.

Ar y cychwyn, gall y broses o radicaleiddio ymddangos yn eithaf diniwed: datblygu cyfeillgarwch a thrafodaethau angerddol.

Gallai fod ar y rhyngrwyd, ar Twitter, lle efallai fod rhai merched yn teimlo fel nad ydynt wedi'u grymuso, fel nad yw neb yn eu clywed, heb gael platfform, a gallant ofyn cwestiynau heb rwystr, a derbyn atebion synhwyrol.

KELLY SIMCOCK

Ac felly gallai'r recriwtiwr alw heibio a dweud "wyddoch chi beth? Rwyf gwirioneddol yn gweld rhywbeth ynoch chi sydd ei wir angen arnon ni, ac mae angen unigolion fel chi i helpu arwain a chymryd safiad go iawn ar yr achosion hyn".

MANWAR ALI

Fel arfer mae'r radicaleiddwyr yn llwyddiannus iawn gan eu bod nhw'n darparu'r cymorth emosiynol hwnnw mae person yn methu dod o hyd iddo weithiau mewn bywyd.

KELLY SIMCOCK

Ond fel y gwyddom, mae'r recriwtwyr yna'n mynd ati i blannu hadau sydd mewn gwirionedd yn seiliedig ar y syniad o'u cael nhw i weithredu mewn modd eithafol a radical.

Yr ideolegau rydym yn wir poeni yn eu cylch yw'r rhai hynny nad ydynt yn gweld lle yn y byd i bobl sy'n wahanol: Mae'r rhain yn camddefnyddio ffydd, hanes neu wleidyddiaeth, ac yn cymysgu ffeithiau a barn.

MANWAR ALI

Mae'r ideoleg derfysgol yn annynoli ystyr dynolryw person; mae'n gorfodi i'r person sy'n ei ddioddef weld eraill nad ydynt yn rhan o'i grŵp fel bodau nad ydynt yn ddynol.

Felly mae'n gwneud ymddygiad troseddol yn ymddygiad mae modd i'w gyfiawnhau. Mae'n gwneud i unigolyn nid yn unig i deimlo cyfiawnhad ond efallai fel eu bod wedi cyflawni gweithred gysegredig, rhywbeth mae Duw yn ei gymeradwyo ac yn gwobrwyo.

LLAIS DROSODD

Wrth gwrs, nid oes unrhyw broffil sengl o derfysgwr, felly yn y DU mae gennym achosion lle mae terfysgwyr yn dod o gefndiroedd amrywiol.

Ond er y gall yr ideolegau fod yn wahanol, mae'r broses yn debyg:

©Tenboss Ltd. 2016

Absenoldeb ffactorau amddiffynnol sy'n galluogi gwendidau yn y cefndir; dylanwadau ac agoriad ideolegol i gyfuno gan arwain, mewn achosion prin, at rywun yn mynd yn derfysgwr.

A dyna pam diben rhaglen Prevent yw anelu at atal y broses honno.

SGRÎN 11:
Y BROSES

Nawr rydym yn mynd i glywed stori, wedi'i seilio ar ddigwyddiadau gwirioneddol, o fyfyriwr a oedd yn agored i radicaleiddio.

Tra bod y fideo'n chwarae, gwrandewch am ymddygiadau neu amgylchiadau syn peri pryder ichi.

Bob tro y clywch rywbeth, cliciwch y botwm ar y sgrîn i gofrestru'ch pryder a byddwn ni'n trafod y rhain ar ddiwedd y fideo.

Cliciwch i barhau

SGRÎN 12:
RHAN PUMP: Y BROSES

Mae dau ddewis i weithio gyda nhw:

Un yw ble mae gan fyfyrwraig fenyw (17 mlwydd oed) y potensial i gael ei thynnu i mewn i Derfysgaeth Islamaidd.

Mae'r llall yn dilyn bachgen (15 mlwydd oed) y mae'n ymddangos ei fod yn cael ei dynnu i mewn i ideoleg y Dde Bell.

Dewiswch ba un a allai fod yn fwyaf defnyddiol ichi weithio arno - peidiwch â phoeni os nad yw proffiliau'r rhai sy'n gysylltiedig yn cydweddu'n union â'ch sefydliad, gellir cymhwyso'r ddysg yn rhwydd i sefyllfaoedd eraill.

SGRÎN 12a:

Cofiwch y mathau o agoredrwydd i niwed a newidiadau o ran ymddygiad rydym wedi'u hystyried yn gynharach. Byddwn ni'n defnyddio'r astudiaeth achos hon i weld a oes ffactorau tebyg yn amlwg yma.

Bob tro y clywch rywbeth yn y fideo a allai beri pryder ichi ynghylch lles **Farah, cliciwch y botwm ar y sgrîn** i gofrestru hynny, a byddwn ni'n rhoi'r rhain yn eu cyd-destun ar ddiwedd y fideo.	Bob tro y clywch rywbeth yn y fideo a allai beri pryder ichi ynghylch lles **Callum**, **cliciwch y botwm ar y sgrîn** i gofrestru hynny, a byddwn ni'n rhoi'r rhain yn eu cyd-destun ar ddiwedd y fideo.

©Tenboss Ltd. 2016

SGRÎN 13:
FIDEO 3: Astudiaeth Achos 1

FARAH:

Dywedodd fy nhad fy mod i'n glyfar. "Byddi di'n feddyg. Athro gwych." Doedd e ddim ar hyd y lle yn aml i weld nad oedd bod yn glyfar yn dod yn hawdd.

Ble roedd ef pryd roeddwn yn dioddef o chwalfa feddyliol?? Pryd roedd fy TGAU yn ormod i mi a rhoddodd Dr Elias llythyr salwch i mi.

Wnes i ddim gadael fy ystafell am bron i bythefnos. Cysgais a chysgais. Ond pan doeddwn i ddim yn cysgu gallwn i eu clywed yn siarad amdanaf i lawr y grisiau. Clywais mam yn dweud i mi siomi fy nhad. Roeddwn o hyd yn meddwl, tybed a'i fi oedd y rheswm roedd dad wedi gadel. Rhywbeth gwnes i. Neu yn hytrach rhywbeth nad oeddwn i wedi ei gwneud...

Dyna oedd yr amser gwaethaf i golli Laila.

Roeddem yn ffrindiau da. Ac yna dechreuodd hi weld Ryan; roedden nhw'n yfed a gwrando ar gerddoriaeth gyda'r bechgyn oedd yn byw wrth y Rec.

Yna, roedd Laila yn actio fel nad oedd hi'n fy adnabod i. A dweud y gwir roeddwn i'n teimlo'n ofnus.
Roeddwn yn unig. Ni chefais erioed grŵp enfawr o ffrindiau, ac yn awr roeddwn wedi ei cholli hi.

Wnaeth hi ddim dychwelyd y tymor nesaf.. Byddaf ond yn cymdeithasu â Miriam a Pearl. Wrth i hyn mynd ymlaen, byddwn yn gweld Laila yn y dref bron pob bythefnos. Pob tro mewn grŵp.

Yr oeddwn i am fod fel hi. Oni'n credu oeddwn am. Hynny yw, yr oeddwn i am fod yn boblogaidd. Ond a yw bod yn boblogaidd yn golygu cymdeithasu gyda Ryan a'i grŵp; yn meddwi'n racs? Nid dyma fy nghymeriad. Ni fu'n rhan o'm cymeriad erioed. Mae'n debyg oherwydd nid yw'n rhan o'n diwylliant.

Fy niwylliant. Beth yw fy niwylliant?

Rhoddes i gynnig ar ddillad traddodiadol. Gwnaeth imi deimlo'n rhan o rywbeth. Helpodd i mi deimlo fel fi. Byddai Mam yn fy nghyflwyno i bobl gan ddweud "Mae'n gam dros dro y mae hi'n mynd drwyddo…"

Yn ystod y nos, byddwn i'n gofyn i bobl ar-lein. Beth maen nhw'n ei wneud i ffitio i mewn? I osgoi teimlo'n unig? Weithiau, bydden yn sgwrsio bob nos.

Roedd y ffrindiau newydd hyn, byth yn gas i mi.Roedden nhw'n deall pam oeddwn i wedi drysu. Roedden nhw'n teimlo'r un peth. Dechreuon ni siarad am beth oedd yn iawn, a beth nad oedd.

Ac roedd dim ond siarad am beth oedd yn mynd ymlaen yn y byd yn gwneud imi deimlo'n dda – fel roeddwn i'n gwneud rhywbeth ei gylch.

Dechreuais feddwl o ddifrf; holi yn eu cylch. Yn enwedig wrth sgwrsio â Jamal. Byddwn yn siarad am oriau am bethau nad oedd y newyddion yn dangos – yn hytrach roedden yn dangos pwy collodd bleidlais ar ryw sioe deledu neu pwy oedd yn gwisgo beth i premiere ffilm.

©Tenboss Ltd. 2016

Roedd Jamal yn gwybod popeth. Penillion a dyfyniadau i gefnogi popeth. Fe oedd yr un oedd yn ddigon dewr i ddweud wrtha i efallai bod y wlad hon, a phobl nad oeddynt fel fi, dim am i fi fod yma
Ond dywedodd e ei fod wedi helpu pobl eraill fel fi dod o hyd i berthyn.

Danfonodd fideos ataf yn dangos lluniau o a adawodd eu mamwlad ar gyfer bywyd gydag ystyr. Pobl gyda'i gilydd. Dywedodd e y gallwn i gael hynny. Roedd hynny wedi fy nghyffroi. Lle gyda rôl a diben i'm mywyd. Lle gallaf fod yn rhan o rywbeth.

Oherwydd o ddifri, i ba raddau ydw i'n rhan o'r gymdeithas hon? Rwy'n teimlo fel un o'r tu allan, yn wahanol, a'r pethau roedd e'n eu dweud wrtha i... eglurodd pam nad oeddwn i'n ffitio i mewn i gymdeithas. Pethau nad yw pobl yn sôn amdanynt...

Roedd cylchgrawn ar-lein roeddwn i'n ei hoffi. Dywedodd Jamal y dylwn i ysgrifennu erthygl ar ei gyfer. Fi. Mewn print – wel, i ryw raddau. Roedd wedi bod yn freuddwyd i mi erioed!

E-bostiodd Nassrin, y Golygydd.. Ysgrifennodd hi yn ôl imi gan ddweud bod geiriau'n iawn, ond bod gweithredoedd yn fwy pwerus.

Felly dywedes i gelwydd wrth fy mam a mynd i gyfarfod i glywed dros fy hunan. Dywedais i fy mod i'n mynd i glwb ar ôl ysgol. Roedden mynychwyr y cyfarfod yn eithaf dwys. Wnes i ddim dweud llawer. Roeddwn allu gweld mai nid fy lle i oedd siarad.

Ond rhoddon nhw ddeunydd imi i'w ddosbarthu yn yr ysgol. Doedd neb â gwir ddiddordeb. Yn union fel dywedodd Jamal ac eraill. Roeddent wedi fy mharatoi ar gyfer hynny.. Nid oes unrhyw un am siarad am pam nad oedd cymorth yn cael i anfon pan y dylid! Am bobl ddiniwed yn cael eu lladd a'u hanafu

Roeddwn mor ddig wedi hynny. – Dywedais wrth rai ohonynt ond gwnaethant hwyl ar fy mhen; Dywedasant yr oeddwn i'n gynhyrfllyd. Maen nhw mor anaeddfed...

Roedd pethau'n teimlo'n wahanol bellach... efallai...efallai fy mod i'n... Dwi ddim yn gwybod..

Gwyddwn beth bydde Jamal yn dweud "Fe ddywedais wrthych"... A oedd hyn holl yn wir? …
Allwn i ddim yn siarad â mam...

Mr. Stephens. Roedd cymdeithaseg yn teimlo fel lle da i ddechrau. Dywedodd ei fod yn hoffi fy ngwaith ysgrifennu o'r blaen. A rwyf yn ei barchu. Byddai e'n deall na fyddai ef …?

CALLUM:

Nid oedd unrhyw un arall yn siarad am mam yn cael affêr.
Felly pam dylwn i?

Hi yw'r un a ddaeth yn agos i ddifetha ein cartref.

Tyngaf, bron lladdodd fy nhad. Byswn i wedi ei thaflu hi allan o'r tŷ, ond roedd fy nhad byth yn siarad am y peth.

Truenus iawn i ddweid y gwir.

O leiaf roedd yn golygu na chefais gosb am fy nghanlyniadau arholiadau cachi.

Dywedodd fy nhiwtor y bysen i'n gwastraffu fy mywyd os nad oeddwn i'n gwella fy mherfformiad.

©Tenboss Ltd. 2016

Wel, rwy'n gwybod yna mwy nag un ffordd i lwyddo mewn bywyd.

Mae Tony'n dweud fy mod i'n arweinydd. Mae'n dweud y byddaf yn iawn a bod gennyf yr agwedd iawn.

Pan stopiodd dad dod i gemau, roeddwn i dal i fynd. Weithiau gyda fy ffrind Stu a'i dad, ond weithiau dim ond gyda Stu.

Dyna pryd cyfarfûm â Tony a'r gweddill yn y stondinau. Gêm wych. Hat-tric i selio'r fargen.

Fe aethon nhw â fi i'r dafarn. Prynon nhw ddau beint imi. Am ddiwrnod! Wrth fy modd.

Dechreuais gerdded i'r gemau gyda Tony, Bev a'r rhai eraill. Bydden nhw'n siŵr o sicrhau ffordd mewn i'r George i mi ar ôl y gêm.

Un diwrnod roedd ffeit. Taflodd rhywun wydryn ar Tony a defnyddies fy mag i'w ddargyfeirio. Greddf mewn gwirionedd, ond dywedodd e fy mod i'n arwr iddo! Wrth gwrs, roeddwn i'n teimlo'n ofnus, ond....dywedodd Tony fy mod i wedi sefyll fel dyn.

Yfom hyd feddwi'n go iawn y noson honno...!

Tecstiaid dad a dywedais y byddaf yn aros yn nhŷ Stu. Roedd e dim yn gofidio amdanaf i ta beth.

Yr wythnos honno, cefais wahoddiad i gyfarfod yn i fyny'r grisiau yn The George gan Tony. Dechreuodd gan ddweud wrthyf sut yr oedd yn ddyledus imi gan i mi gamu i mewn fel y gwnes i. Dywedodd wrthyf bod gennyf y dewder i ddelio â'r gwir.

Dywedodd bod, mae ein gwlad ardderchog yn cael ei gwerthu'n rhad. Edrycha o gwmpas. Pan gerddwn ni drwy Western Road, rydym yn gweld nhw i gyd - dydyn nhw ddim yn yfed; dydyn nhw ddim yn ychwanegu unrhyw beth. Mae'r holl beth yn briodasau sydd wedi'u trefnu, cymryd ein hariad i adeiladu mosgiau, newid ein cyfraith i fod yn addas iddyn nhw.
Mae'n gachu rwtsh.

Sai'n bod yn hilio; mae fy ffrind Dev yn Sîc – maen nhw'n iawn. Maen nhw'n cymysgu. Maen nhw'n deall y peth.

Dywedodd Tony mai ein dewis ni oedd pwy oedd yn byw yn y dref. Pwy roedden ni'n ffrindiau â nhw yn y dref.

Dywedodd y gallwn i wneud gwahaniaeth. Ac yr wyf am.

Dywedais wrth rai o'm ffrindiau yn yr ysgol. Roedden nhw dim yn cyfaddeg, ond roeddwn i'n gwybod eu bod nhw'n meddwl yr oedd e'n wych fo mod i'n rhan o'r peth.

Roeddwn i'n meddwl y byddai Tony'n falch. Ond aeth e'n wyllt. Dywedodd y byddai e'n dweud wrtha i i bwy ddweud wrtho a sut.

The Young Patriots. Rhoddodd Tony lawer o bethau imi osod ar hyd y lle – yr oeddwn i yn, fel, arweinydd rhanbarthol ar y dudalen. Roeddwn i'n diweddaru'r dudalen pan oedd Mwslimiaid yn cael pethau cyn Saeson; neu pan oedden nhw'n cynllwynio i ymosod arnon ni; pan oedd y cyngor yn pasio eu deddfau nhw.

©Tenboss Ltd. 2016

Gofynnwyd imi gael mwy o bobl i hoffi'r dudalen. Roeddwn i erioed yn un dda am ysgrifennu, felly nes i'r peth fy ffordd fy hun: a dweud wrth bobl am ymuno. Allen nhw ddim gwrthod: Rwy'n fwy o ddyn na llawer ohonynt

Hoffwn arlunio fy stwff gyda symbol y grŵp. Neu stwff pobl eraill. Yna eiddo fi ydoedd! Roedd pobl yn gwybod ei fod yn golygu rhywbeth. Y dylen nhw ei barchu.

Roedd Tony o dan straen. Roedd yn sôn am ryw orymdaith ym mis Mawrth yr haf hwnnw - dywedodd y beffe ef ar y newyddion. Roedd pethau'n dechrau mynd yn ddwys, ond roedd o hyd yn gwenu wrth siarad â mi.

Dywedodd e ei fod e'n ymddiried ynof. Bydde fe o hyd yn edrych ar fy ôl. Roedd e'n cynnig mwy na neb arall.

SGRÎN 14:

YMDDYGIADAU FARAH	**YMDDYGIADAU CALLUM**
Isod mae'r ymddygiadau trafferthus ichi eu cofrestru wrth wylio'r astudiaeth achos – a gellir gweld y cyd-destun am y pryder hwnnw trwy glicio ar unrhyw un ohonyn nhw. Ar unrhyw adeg, gallwch glicio i barhau er mwyn symud ymlaen.	Isod mae'r ymddygiadau trafferthus ichi eu cofrestru wrth wylio'r astudiaeth achos – a gellir gweld y cyd-destun am y pryder hwnnw trwy glicio ar unrhyw un ohonyn nhw. Ar unrhyw adeg, gallwch glicio i barhau er mwyn symud ymlaen.

FARAH:

PRYDER	**ESBONIAD**
Arwyddion Straen	Mae Farah'n cyfeirio at "waeledd" ac wedyn mae'n cael nodyn salwch i aros i ffwrdd o'r ysgol pan oedd "TGAU yn mynd yn ormod" Gallai'r ffaith ei bod wedi encilio i'w hystafell wely ble roedd yn "cysgu a chysgu" fod yn arwyddion o orflinder ac efallai iselder hyd yn oed.
Pwysau Teuluol/Tryblith	Mae Farah'n canfod bod ei theulu'n ei beio am y ffaith bod ei thad wedi gadael. Ac nes ymlaen, pan yw Farah'n dechrau archwilio ei hunaniaeth ddiwylliannol ymddengys nad yw ei mam yn ei chefnogi'n gyhoeddus yn hynny o beth.
Mynd yn dawedog/ar wahân/cael ei chau allan	Mae perthynas Farah gyda'i ffrind gorau'n torri i lawr. Mae'n cael ei chau allan o'i grŵp cyfeillgarwch ac mae hyn yn ei gwneud yn ofnus, ac yn newid ei grŵp cyfoedion "ar y tu allan i bopeth." Nes ymlaen mae Farah'n cael ei chau allan ymhellach pan yw'n

©Tenboss Ltd. 2016

	ceisio cynnwys ei chyfoedion mewn trafodaeth wleidyddol.
Celwydda wrth y teulu	Mae Farah'n dweud celwydd wrth ei mam pan yw hi eisiau cwrdd â Nassrin ac eraill mewn cyfarfod. Mae hyn yn awgrymu nad yw rhwydwaith cymorth ei theulu mor gryf ag y gallai fod, a hefyd efallai fod yr amheuon hyn yn bodoli ym meddwl Farah ynghylch ai mynychu'r cyfarfod yw'r peth priodol i'w wneud.
Mynychu cyfarfodydd	Ni wyddom a oedd y cyfarfod yn hyrwyddo eithafiaeth. Mae'n peri pryder ei bod yn dweud "nad oedd yn briodol" iddi siarad. Hefyd, mae'r ffaith bod Farah'n penderfynu peidio â dweud y gwir wrth ei theulu am y cyfarfod mae'n dymuno ei fynychu, yn awgrymu na fyddent wedi ei gymeradwyo.
Dosbarthu taflenni	Ni wneir yn glir a yw'r deunydd mae'r grŵp yn gofyn i Farah ei ddosbarthu'n eithafol ei natur. Nid yw dangos diddordeb cynyddol mewn digwyddiadau byd-eang neu wleidyddol yn rheswm i bryderu, oni bai fod hyn yn hyrwyddo ideoleg rwygol, eithafol.
Arwyddion Dicter	Mae Farah'n dweud pa mor ddig roedd yn ei gwneud pan na fyddai cyfoedion yn ymgysylltu â hi mewn trafodaeth wleidyddol. Mae Farah'n dweud iddi ddweud wrth ei chyfoedion sut oeddent yn gwneud iddi deimlo felly mae'n amlwg bod dymuniad i ymgysylltu â sgwrs. Felly, y pryder yma yw Jamal a'r grŵp yn rhagweld y senario hon er mwyn helpu i gyfiawnhau'r ffaith bod Farah'n perthyn i'r grŵp, a'i chau allan ymhellach o'i chyfoedion.

CALLUM:

PRYDER	**ESBONIAD**
Dirywiad o ran safonau	Mae gan Callum ganlyniadau gwael yn yr arholiadau, a mae'n siarad â'i diwtor am hynny. Mae'n debygol bod safon wael ei waith oherwydd pwysau'r digwyddiadau yn ei gartref.
Defnydd o Alcohol	Prynir alcohol i Callum gan y grŵp a chaniateir iddo fynd i mewn i dafarn gyda nhw. Mae'n glir bod Callum yn mwynhau hyn, ond mae e mewn perygl o deimlo ei fod yn ddyledus iddynt o ganlyniad i hynny; byddai'r bygythiad o gael ei wahardd o'r grŵp hwn yn ysgogydd grymus i beidio â

©Tenboss Ltd. 2016

	chwestiynu beth maent yn disgwyl ganddo.
Aelodaeth o Gang	Mae'n dod yn amlwg bod y gang yn cymryd y rôl o riant neu warcheidwad trwy hebrwng Callum yn ei amser rhydd yn y gemau pêl-droed.
Dweud celwydd wrth y Teulu	Mae Callum yn dweud celwydd wrth ei dad er mwyn aros gyda'r grŵp ar noson y ffeit yn y dafarn.
Mynychu Cyfarfodydd	Mae Callum yn dechrau mynychu cyfarfodydd "cyfrinachol" gyda'r grŵp yn ystafell ddigwyddiadau'r dafarn lle cyflwynir barnau eithafol heb her na chydbwysedd.
Araith wedi'i Sgriptio	Ymddengys fod Callum yn cael ei gyflwyno ag, ac yn mabwysiadu ieithwedd, rhai barnau eithafol sy'n peri rhwyg yn ei gymuned. Mae cryfder y barnau hyn yn amlwg pan yw Callum yn cael ei rybuddio rhag eu rhannu gyda phobl heb ganiatâd Tony.
Defnydd Afiach o'r Rhyngrwyd	Gofynnir i Callum weithio ar wefan oedd yn hyrwyddo ideoleg y grŵp.
Bwlio	Mae Callum yn defnyddio grym i gael ei gyfoedion i gofrestru ar y wefan, fel oedd Tony wedi'i gyfarwyddo i wneud.
Ymddangosiad Symbolau	Mae Callum yn dechrau dangos yn weithredol ei ymrwymiad i'r grŵp trwy fabwysiadu a thynnu llun o'u symbol ar ei bethau.

SGRÎN 16:

AMGYLCHIADAU FARAH	**AMGYLCHIADAU CALLUM**
Mae'n bwysig I ni ddeall beth sy'n gyrru newid ymddygiadol sy'n peri pryder I ni. Yn yr achos hwn, mae'r amgylchiadau dilynol wedi ynysu **Farah**, sy'n ei rhoi mewn perygl. Cliciwch ar unrhyw un o'r rhai isod i gael rhagor o gyd-destun. Neu cliciwch i barhau ar unrhyw adeg.	Mae'n bwysig I ni ddeall beth sy'n gyrru newid ymddygiadol sy'n peri pryder I ni. Yn yr achos hwn, mae'r amgylchiadau dilynol wedi ynysu **Callum**, sy'n ei roi mewn perygl. Cliciwch ar unrhyw un o'r rhai isod i gael rhagor o gyd-destun. Neu cliciwch i barhau ar unrhyw adeg.

FARAH:

COLLED	Mae perthynas Farah gyda'i ffrind gorau'n torri i lawr, yn ei gadael ar wahân a dryslyd.

©Tenboss Ltd. 2016

TRYBLITH YN Y TEULU	Mae tad Farah'n gadael y cartref ac ymddengys perthnasau gyda'i mam yn bell.
PWYSAU CYFOEDION/TEULU	Mae Farah'n wynebu pwysau gan ei ffrindiau i ymdddwyn mewn ffordd nad yw hi eisiau ei wneud; ac ymddengys fod pwysau a disgwyliadau gan ei rhieni'n pwyso arni hefyd.
PWYSAU ARHOLIADAU/GWAITH	Mae Farah eisoes wedi bod i ffwrdd yn sâl oherwydd straen.

CALLUM:

COLLED	Ymddengys fod Callum yn gweld colled y berthynas gyda'i dad, yn arbennig gan fod ei dad yn rhoi'r gorau i fynd i gemau pêl-droed gyda'i fab.
TRYBLITH YN Y TEULU	Roedd cysylltiadau wedi torri i lawr rhwng tad a mam Callum. Er yr ymddengys eu bod yn ceisio unioni'r rhain, ymddengys fod Callum yn teimlo ei fod wedi'i eithrio o'r broses honno.
BLAENLENCYNDOD	Mae'r sgwrs gyda'r tiwtor dosbarth yn awgrymu bod Callum yn cyrraedd cam yn ei fywyd ble fydd angen iddo ddechrau ystyried y dyfodol – a phwysleisir hyn gan y ffaith bod Tony yn dweud y bydd yn arweinydd, ac yn awgrymu nid yw llwybr Callum yn galw am lwyddiant academaidd o angenrheidrwydd.
CYFFURIAU AC ALCOHOL	Mae'n glir bod Callum yn mwynhau'r cyfle i yfed alcohol yn sefyllfa aeddfed y dafarn.
PWYSAU ARHOLIADAU/GWAITH	Mae Callum yn cyfeirio at raddau gwael yn ei arholiadau.
BWLIO	Awgrymir bod Callum yn brawychu myfyrwyr eraill i gefnogi gwefan Y Gwladgarwyr Ifanc.

SGRÎN 15:

HYGLWYFDER FARAH	**HYGLWYFDER CALLUM**
Gall llawer o bobl eu cael eu hunain ar wahân. Felly pam bod **Farah** mewn perygl o gael ei radicaleiddio? Oherwydd bod amgylchiadau ychwanegol yn amlwg yn yr astudiaeth achos hon. Tynnir y rhain o'r fframwaith asesu Hyglwyfder Sianel sydd ar gael i'r cyhoedd - a ddefnyddir i helpu awdurdodau lleol i nodi a yw rhywun yn wir mewn perygl.	Gall llawer o bobl eu cael eu hunain ar wahân. Felly pam bod **Callum** mewn perygl o gael ei radicaleiddio? Oherwydd bod amgylchiadau ychwanegol yn amlwg yn yr astudiaeth achos hon. Tynnir y rhain o'r fframwaith asesu Hyglwyfder Sianel sydd ar gael i'r cyhoedd - a ddefnyddir i helpu awdurdodau lleol i nodi a yw rhywun yn wir mewn perygl.

©Tenboss Ltd. 2016

Cliciwch Barhau	Cliciwch Barhau

©Tenboss Ltd. 2016

Home Office

SGRÎN 16:

HYGLWYFDER FARAH	**HYGLWYFDER CALLUM**
Gallwch glicio ar unrhyw un ar y rhestr i gael rhagor o gyd-destun ynghylch y pwynt hwnnw. A phan ydych yn barod gallwch glicio parhau i symud ymlaen.	Gallwch glicio ar unrhyw un ar y rhestr i gael rhagor o gyd-destun ynghylch y pwynt hwnnw. A phan ydych yn barod gallwch glicio parhau i symud ymlaen.

FARAH:

Angen am ystyr; hunaniaeth; a pherthyn	Mae Farah ar adeg bontio yn ei bywyd a mae digwyddiadau diweddar wedi'i harwain i gwestiynu pwy yw hi a beth yw ei rôl mewn cymdeithas. Bydd ei theimlad o gael ei chau allan gan ei ffrindiau wedi rhoi angen mwy iddi i ganfod derbyniad rhywle.
Teimladau o gŵyn ac anghyfiawnder	Mae datguddiad Farah i ddeunyddiau ar-lein nid yn unig yn cryfhau ei dymuniad i weld newid, ond hefyd mae'n codi rhwystrediageth ynghylch digwyddiadau bydeang a materion tramor.
Tueddiad i gael ei dylanwadu neu ei rheoli	Mae Farah'n disgrifio ei rhyngweithiadau gyda'i radicaleiddwyr fel rhywbeth cyffrous – ymddengys ei bod yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr, a mae gwybodaeth ddiwinyddol ymddangosiadol Jamal yn creu argraff arni. Wrth i egwyddori Farah mewn ideoleg eithafol gynyddu, dywedir wrthi beth i'w ddewud a'i wneud.
Meddwl yn nhermau Nhw a Ni	Mae'n dechrau tybio a oes croeso iddi yn y DU, ac yn targedu'r grŵp LBGT yn ei hysgol fel rhywbeth sy'n derbyn breintiau drosti hi.
Cyffro ac antur	Mae'n amlwyg bod y posibilrwydd y caiff ei gwaith ysgrifenedig ei gydnabod a'i gyhoeddi yn rhoi pleser mawr i Farah.
Cefnogaeth o blaid eithafiaeth gan ffrindiau a/neu deulu	Awgrymir bod ffrindiau newydd Farah, sef Jamal a Nassrin yn cefnogi eithafiaeth.

CALLUM:

Angen am ystyr; hunaniaeth; a pherthyn	Mae Farah ar adeg bontio yn ei fywyd a mae digwyddiadau diweddar yn ei gartref wedi'i arwain i deimlo'n siomedig gyda'i deulu, a felly mae ganddo chwant am ganfod derbyniad rhywle arall.
Teimladau o gŵyn ac anghyfiawnder	Mae'r grŵp mae Callum yn dod yn rhan ohono'n bwydo'r syniad iddo bod pobl eraill yn cael breintiau drosto fe; a bod y gwerthoedd maent yn datgan y dylai fe eu gwerthfawrogi o dan fygythiad.

©Tenboss Ltd. 2016

Tueddiad i gael ei ddylanwadu neu ei reoli	Mae Tony'n cyflwyno Callum fel rhyw fath o arwr – ond hefyd mae awgrym y defnyddir ofn a brawychu i reoli ei ffyddlondeb i'r grŵp.
Meddwl yn nhermau Nhw a Ni	Mae rhaniad clir ynghylch pwy mae Callum a'r grŵp yn targedu eu cwyn tuag atynt – mae hyd yn oed yn gwneud y pwynt nad yw grŵp ethnig arall yn ffocws am eu sylw.
Chwant am statws; i ddylanwadu ar bobl eraill a'u rheoli	Mae'n amlwg bod Callum yn gwerthfawriogi'r rôl "arweinyddiaeth" mae'r grŵp yn ei rhoi iddo, a mae'n defnyddio hynny i fygwth ei gyfoedion.

SGRÎN 17:

Gobeithio fod yr ymarfer hon wedi dangos nad yw'r ymddygiadau y gallem eu disgwyl gan berson sy'n cael ei radicaleiddio mor annisgwyl neu anghyfarwydd ag y gallem fod wedi'i ddychmygu.

Felly mae'n debygol y byddech yn sylwi ar lawer o arwyddion radicaleiddio fel rhan o'ch gwaith dyddiol..

Ond mae hwn yn fater cymhleth a sensitif, ac mewn unrhyw senario bydd yr amgylchiadau a'r hyglwyfder mor unigryw â'r person wrth ei galon.

O'r ymddygiadau a allai beri pryder, gallai rhai fod yn gwbl amlwg – yn arbennig pan yw'r rhain yn eiriol: megis newid o ran iaith; obsesiwn â phwnc; yn gwrthod trafod; yr holl ffordd drwodd i ddatgan bwriad pendant i gyflawni trais.

Dylid annog mynegiant agored, rhydd – dylai pobl mewn perygl o gael eu radicaleiddio deimlo y gallant gwestiynu a thrafod yr hyn a gyflwynir iddynt, yn arbennig trwy berthnasau cryf, presennol.

Drosodd a thro rydym yn clywed am bobl yn rhoi cynnig ar y syniadau newydd hyn trwy eu mynegi wrth bobl maent yn eu hedmygu neu barchu – ac yn aml mae hyn yn cynnwys ffigurau awdurdod megis athrawon, meddygon, a gweithwyr cymdeithasol.

O bwy bynnag mae'r pryder yn tarddu, mae angen i'r ymateb fod yn gymesur – wedi'r cyfan mae pobl ifanc yn mynd trwy gyfnodau pontio nad ydynt o angenrheidrwydd yn ymwneud â nhw eu hunain – felly dylid ystyried cyd-destun bob tro.

Felly byddwch cystal â chofio defnyddio eich dealltwriaeth, cofiwch Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a byddwch yn sensitif: er enghraifft nid yw cynnydd o ran arfer crefyddol, a welir efallai trwy wisgo sgarff pen, neu ddiddordeb mewn digwyddiadau bydeang neu wleidyddol ynddo ei hunan yn rhywbeth i boeni yn ei gylch: dim ond os yw'r rhain yn ymddangos ar y cyd â rhai o'r ymddygiadau eraill rydym wedi eu trafod, megis defnydd o ieithwedd eithafol neu rwygol, y gallech deimlo bod angen poeni mewn gwirionedd.

Ymddiriedwch yn eich barn broffesiynol i wybod pryd mae angen help ar rywun.

©Tenboss Ltd. 2016

SGRÎN 18:
YMATEB CYMESUR

Mae ymatebion am gymorth yn gymesur, ac yn dibynnu ar gynnwys y bobl gywir i lywio pobl i ffwrdd o radicaleiddio os mai dyna sydd ei angen.

Cliciwch barhau i symud ymlaen.

SGRÎN 19:

(PARHAD A)	(PARHAD B)
I'n helpu i ddeall pa olwg sydd ar y cymorth hwnnw rydym yn mynd i barhau â stori Farah – y tro hwn yn parhau o'r pwynt pan oedd ei hathro'n sylwi ar ymddygiadau oedd yn peri pryder iddo. Gwrandewch yn ofalus ar sut y trafodwyd y pryderon hynny, a gan bwy, gan y bydd hyn yn ffurfio sylfaen ein hymarfer terfynol. Cliciwch y fideo i gychwyn.	I'n helpu i ddeall pa olwg sydd ar y cymorth hwnnw rydym yn mynd i barhau â stori Callum – y tro hwn yn parhau o'r pwynt pan oedd ei athrawes yn sylwi ar ymddygiadau oedd yn peri pryder iddi. Gwrandewch yn ofalus ar sut y trafodwyd y pryderon hynny, a gan bwy, gan y bydd hyn yn ffurfio sylfaen ein hymarfer terfynol. Cliciwch y fideo i gychwyn.

SGRÎN 20:
FIDEO 4 – ASTUDIAETH ACHOS 2

ATHRO FARAH

LLAIS DROSODD (athro gwryw)

Roeddwn i ond wedi addysgu Farah ers dau dymor a byddwn i'n dweud bod gennym gyfeillgarwch da.

Roedd hi erioed wedi bod yn llawn parch ac yn dawel tuag ata i. Myfyrgar. Sylwgar.

Roeddwn i'n gwybod ei bod yn cymryd ei ffydd o ddifri.

Dydy e ddim yn rhyfedd i fyfyrwyr o'i hoedran a'i chefndir hi archwilio eu treftadaeth felly pan oedd yn ymddangos ei bod hi'n gwneud mwy o hynny, cymeres i e am yr hyn yr oedd e: peth da.

Felly i mi roedd yn ysgytwad enfawrh pan ddarllenes i ei thraethawd.

Roedd y traethawd yn dda; ar y trywydd iawn tan y dudalen olaf. Yma roedd yn gwyro ymhell o'r pwnc. Roedd yn ddig, yn cyhuddo ac yn cynnwys yr hyn y byddwn i'n dweud eu bod yn sylwadau ymfflamychol, a anelwyd at adrannau eang o'r gymuned – roedd yr iaith yn ofnadwy, graffig ac a bod yn onest yn peri gofid. Roeddwn i'n teimlo ei bod yn anghyfiawn ac yn drafferthus.

©Tenboss Ltd. 2016

Roedd angen I mi weld a oedd hyn yn peri problem i rywun arall, felly ar y bore nesaf ces i sgwrs gyda fy mhennaeth adran er mwyn gwirio fy mhryderon a gweld a allai hi daflu ychydig o oleuni ar y sefyllfa. Dywedodd hi ei bod hi'n gwybod bod Farah wedi cael ei hynysu braidd, a'i bod wedi bod i ffwrdd yn sâl oherwydd straen llynedd ond roedd hi'n credu bod hynny wedi'i drafod, ac o safbwynt academaidd roedd ei holl waith wedi bod yn ardderchog yn gyson.

Dywedodd hi y byddai hi'n e-bostio ein Dirprwy Prifathro, sef ein Harweinydd Diogelu Dynodedig – gwnaethon nhw ofyn am fy ngweld i y prynhawn hwnnw ac fe wnes i rannu fy mhryderon gyda nhw. Penderfynon ni mai'r peth gorau oedd imi gael sgwrs anffurfiol gyda'r ferch.

Roeddwn i'n hapus i wneud hynny ond gwnes i fe'n glir nad oeddwn i'n gallu ateb cwestiynau pe byddai pethau'n mynd ychydig yn rhy ddiwinyddol. Ond roedd hynny'n iawn; fe'i bwriadwyd i fod yn sgwrs i 'brofi'r tymheredd'.

Felly wedi'r dosbarth yr wythnos honno, cafodd Farah a fi ychydig o amser gyda'n gilydd. Dywedes i wrthi hi fy mod i'n hoffi ei thraethawd ond fy mod yn cael bod y diwedd "allan o gymeriad." Fydda i byth yn anghofio beth ddywedodd hi nesaf: "Roeddwn i ond eisiau cael eich sylw."

Fel mae'n digwydd roedd hi... ar goll. Yn brwydro i ffitio i mewn – heb fod yn sicr o safbwynt diwylliannol ble roedd hi'n perthyn. Roedd hi ar oedran ble roedd hi'n teimlo bod penderfyniadau'n cael eu gorfodi arni o ddwy ochr – a ddylai hi yfed neu beidio – a ddylai hi gymryd cyffuriau neu beidio...

Dywedes i wrthi hi fy mod i'n hapus ei bod hi'n gofyn y fath gwestiynau – ei bod hi ar amser pwysig yn ei bywyd – amser i feddwl am syniadau a'u trafod; diwinyddiaeth; am yr hyn mae'n ei olygu i fod yn "fyw".

Fe gawsom drafodaeth a rhannodd hi ei bod hi wedi bod yn darllen deunydd ar-lein, yn siarad â rhywun, a'i bod hi wedi derbyn rhai syniadau roedd hi'n brwydro â nhw yn fewnol; yn arbennig ynghylch creu Califfiaeth dramor. Dywedes i wrthi hi nad oeddwn i'n arbenigwr, ond bod yr hyn roedd hi'n ei ddweud yn mynd yn groes i'r hyn roeddwn i'n ei wybod am wirioneddau bywyd yn y gwledydd hynny.

Roedd yn amlwg bod angen iddi hi siarad â rhywun a oedd yn gymwys i drafod ei chanfyddiadau a meddyliau'n briodol gyda hi.

Dw i ddim yn awgrymu am eiliad ei bod hi'n bwriadu bod yn derfysgwraig na hyd yn oed ei bod hi'n cefnogi terfysgaeth, ond roedd y cyfle yno os nad oedden ni'n gallu rhoi rhywun o'i blaen i herio'r meddyliau a theimladau hyn. Ac roedd hi'n agored i hynny: dw i'n ei weld e nawr fel ei bod hi'n anfon galwad am help ata i. Dw i'n falch iawn am hynny.

A helpu yw'r union beth a wnaethon ni. Cytunodd hi y gallen ni ddweud wrth ei rhieni, ac fe wnaethon ni ei hatgyfeirio i gwnselydd i siarad trwy'r pethau hyn, a drefnodd iddi hi, yn ei thro, ymgysylltu â grŵp y tu allan i'r ysgol sy'n trafod y materion roedd gan Farah gwestiynau yn eu cylch mewn gofod diogel; yn ei helpu i

©Tenboss Ltd. 2016

ganfod ei lle yn ein cymdeithas amrywiol, ac yn bwysicach oll iddi weld ffyrdd y gallai hi gyfrannu ati; roedd hi eisiau pwrpas, a maen nhw'n ei helpu hi i ganfod hwnnw.

Pe byddwn i wedi bod yn ddall i'w galwad am help, neu os nad oeddwn i wedi'i weld fel rhan o'm dyletswydd gyfreithiol o ofal, gallai'r canlyniad fod wedi bod yn gwbl wahanol.

ATHRAWES CALLUM

LLAIS DROSODD (athrawes)

Roedd Callum yn cael enw gwael. Roedd yn mynd yn ddigywilydd. Gellid dweud ei fod yn brawychu pobl hefyd, erioed i staff, ond gallech weld rhai o'i gyfoedion yn gwneud ymdrech i'w osgoi.

Yna dywedodd myfyrwraig wrtha i yn gyfrinachol bod Callum wedi bod yn hyrwyddo gwefan ar gyfer grŵp o'r enw Y Gwladgarwyr Ifanc. Dywedodd hi ei bod wedi gweld y dudalen a'i bod yn cynnwys llawer o iaith gas. Roedd hyn wedi'i gofidio.

Felly eisteddes i gyda hi ac edrychon ni arni gyda'n gilydd, a doeddwn i ddim yn hoffi beth weles i.

Siaredes i ag Alan, ein Prifathro - hefyd ein Harweinydd Diogelu Dynodedig – ac ar unwaith galwon ni Callum i mewn er mwyn siarad ag e gyda'n gilydd.

Gofynnon ni iddo fe o ble roedd hyn wedi dod, ac roedd e'n gyflym iawn i fynnu nad oedd e'n hiliwr. Mai'r ffaith oedd na fyddai e'n cael y swydd roedd e ei heisiau wedi gadael yr ysgol oherwydd y byddai'n mynd i ffoaduriaid yn gyntaf.

Gofynnes i iddo fe beth oedd hynny'n ei olygu a daeth ateb ddryslyd yn ôl ynghylch sut oedd y dref wedi'i rhannu; bod ardaloedd lle na allech chi fynd os nad oeddech chi am gael eich brifo.

Mae Callum wrth ei fodd gyda phêl-droed. Daeth yn amlwg mai dyna ble roedd e wedi cwrdd â phobl a oedd yn ei annog i helpu gyda'r wefan.

Roedd e wrth ei fodd gyda'r sylw. Ar y wefan a hefyd yn y gemau – roedd agwedd gymdeithasol roedd e'n ei mwynhau'n fawr, heb fod ei fam neu dad yno, a dywedodd e wrthon ni yn agored ac yn gynhyrfus am gael ei wahodd i gyfarfodydd grŵp "cyfrinachol" mewn tafarnau cyn ac wedi'r gêm.

Pan ddywedodd y Prifathro y byddai'n rhaid iddo adrodd am yr hyn oedd yn mynd ymlaen, newidiodd Callum – bachgen bach eto – mewn dychryn rhag ofn ei fod e wedi dweud gormod.

Siaradon ni â theulu Callum – cwpl hyfryd, a oedd yn arfer bod yn gysylltiedig â'r ysgol. Fe wnaethon nhw gadarnhau eu bod wedi gweld llai a llai o Callum; ei fod e wedi ymbellhau oddi wrthyn nhw a'i ffrindiau.

Wedi I ni ei awgrymu, fe wnaethon nhw helpu i argyhoeddi Callum i siarad â chwnselydd yr ysgol.

©Tenboss Ltd. 2016

O'r sesiwn gyntaf ymddengys yn amlwg nad oedd Callum yn deall beth roedd e'n ei hyrwyddo nag ideoleg y grŵp roedd e wedi ymgysylltu ag ef. Beth ddywedodd- sut ddywedodd e – yn teimlo fel ei fod wedi'i sgriptio - anwybodus.

Os oedd Callum yn honni ei fod yn gofalu gymaint am ei gymuned, roedd yn bwysig ei fod yn deall amdani, felly dechreuodd gwaith gyda'r cwnselydd a fy adran i fel ei gilydd i roi cyd-destun hanes y ddinas, ei phoblogaeth; ei diwydiant; a'i phwysigrwydd ynghylch digwyddiadau allweddol megis yr Ail Ryfel Byd – ac yn arwyddocaol, pwy oedd yn ymladd dros Brydain yn y rhyfel honno.

Dechreuodd Callum siarad yn agored am ei bryderon personol – pa mor ofnus oedd e ynghylch dod o hyd i waith wedi gadael yr ysgol. Gymaint o arswyd oedd arno ynghylch gadael ei deulu. Esboniwyd i Callum mai ef oedd yn rheoli ei ddyfodol; ei fod yn amser i roi'r gorau i feio pobl eraill am ei ddiffygion canfyddedig ef.

Felly ar y cyd â hyn, fe wnaeth ein rheolwr gyrfaoedd weithio gyda Callum i'w helpu i ystyried ei opsiynau. Fe wnaeth yr awdurdod lleol ein helpu i ganfod grŵp ieuenctid, yr oedd ganddo gymysgedd eang o hiliau a oedd yn ei ddefnyddio. Cytunodd Callum i fynd yno. Roedd yn ansicr ar y dechrau, ond daeth yn drefniant wythnosol iddo – gan roi hyder enfawr iddo o ran cymdeithasu gyda'i grŵp oedran ei hunan, heb ddylanwad oedolion yn yr ystafell.

Yn y cartref, fe wnaeth ewythr a chefnder gamu I'r adwy i fynd ag ef i'w gemau pêl-droed annwyl, felly roedd ganddo drefn a modelau rôl, heblaw am y cwlwm teuluol a oedd mor bwysig iddo.

A digwyddodd y newid. Tyfodd ei hyder, a gallai weld sut oedd yr hyn roedd yn ei gredu o'r blaen heb resymeg neu reswm. Bod y pethau roedd yn eu dweud yn anghywir.

Gallwn ni i gyd – Callum hefyd – weld, pe na byddem wedi dweud rhywbeth yn ôl ar yr adeg honno, gallai Callum fod wedi parhau ar y llwybr roedd yn ei ddilyn a mynd i drafferthion go iawn; efallai yn gorfod mynd i'r llys am dreial hyd yn oed, fel y dynion a oedd yn ei annog i hyrwyddo'r wefan honno.

LLAIS DROSODD:

Mae'r astudiaeth achos yn enghraifft ddefnyddiol o Prevent ar waith: mae'n dangos nad oes angen I ni ddibynnu ar berthnasau nad ydynt gyda ni; nag ymgysylltu ag arferion nad oes gennym brofiad ynddynt.

Does dim ond angen I ni ddibynnu ar ein sgiliau presennol i **sylwi** pan yw ymddygiad rhywun yn peri pryder I ni.

I **wirio** ein teimladau gyda ffrind neu gydweithiwr y gallwn ni ymddiried ynddo/ynddi.

Ac yna **rhannu** ein pryderon os cytunwn ni mai dyna'r peth priodol i'w wneud.

©Tenboss Ltd. 2016

Os gwnaiff pawb hynny, bydd y broses yn caniatáu i bobl sy'n agored i niwed gael cymorth cymesur.

SGRÎN 21:
Rydym bron wedi cyrraedd y diwedd.
Rydym wedi ystyried sut all amgylchiadau unigol sicrhau bod rhywun yn agored i radicaleiddio;
Sut mae radicaleiddio'n gweithio;
A sut olwg allai fod ar yr ymateb cywir i helpu'r unigolyn hwnnw sy'n agored i niwed.

Gadewch I ni gyfuno hynny oll mewn un astudiaeth achos derfynol – y tro hwn lle defnyddir ideoleg wahanol – a chlywed yn gyntaf gan yr unigolyn sy'n agored i niwed, ac yna gan y person oedd yn bryderus ynghylch eu lles.

Cliciwch i barhau.

SGRÎN 38:
FIDEO 5 – ASTUDIAETH ACHOS 3

FARAH/ATHRO

FARAH

Roedd fy nhad yn gallu rhoi pwysau arnon ni i weithio'n galed, ond roedd e wedi mynd pan ges i fy ngwaeledd; pan oedd mam yn gwadu'r peth; pan oedd yr arholiadau'n mynd yn ormod;
Pan wnaeth Dr. Elias lofnodi nodyn salwch I mi.

Dyna'r amser gwaethaf i golli Laila.

Roedden ni'n ffrindiau gorau. Ac yna dechreuodd hi weld Ryan; bydden nhw'n cymryd pils a gwrando ar gerddoriaeth gyda'r bobl ifanc oedd yn byw wrth y Rec.

Yna fe wnaeth hi fy slapio, dywedodd hi fy mod i wedi'i galw'n slag. Doedd gen i ddim grŵp mawr o ffrindiau erioed, a nawr roeddwn i wedi'i cholli hi.

Roeddwn i eisiau bod fel hi. Wel, roeddwn i eisiau bod yn boblogaidd. Ond a ydy bod yn boblogaidd yn golygu meddwi'n llwyr?

Byddwn i'n gofyn i bobl ar-lein, drwy'r nos weithiau: Beth oedden nhw'n ei wneud i ffitio i mewn? Beth oedd yn bod arna i?

Doedden nhw byth yn gas I mi. Roeddden nhw'n teimlo'r un peth.

Dim ond geiriau oedden nhw ond rhywsut achosodd I mi feddwl; cwestiynu. Yn arbennig wrth siarad â Jamal. Dechreuodd e I mi feddwl am grefydd. Roedd e'n gwybod popeth. Dyfyniadau ac adnodau i'w gefnogi i gyd. Fe oedd yr un oedd yn ddigon dewr i ddweud wrtha i efallai nad oedd y wlad hon, a phobl nad ydyn nhw fel fi, eisiau imi fod yma.

Ond dywedodd e ei fod wedi helpu pobl eraill fel fi i ganfod rhywle i berthyn.

©Tenboss Ltd. 2016

Roedd y fideos yr anfonodd e ata i'n gwneud iddo ymddangos yn wir. A ffotos o deuluoedd a adawodd eu cartrefi am fywyd ag ystyr.

Nawr roedd hynny'n gyffrous. Roeddwn i'n teimlo fel y gallwn i weld lle I mi.

Felly, dywedes i gelwydd wrth fam a mynd i gyfarfod i glywed drosof fy hunan. Rhoddon nhw ddeunydd I mi i'w dosbarthu yn yr ysgol. Ac yn union fel roedden nhw wedi'i rag-weld; doedd gan neb ddiddordeb.

Ond allwch chi ei gredu? Doedd neb eisiau siarad am, am pam nad yw cymorth yn cael ei anfon pan ddylai e! Am bolisi tramor sy'n cefnogi llywodraethau sy'n arteithio ac yn lladd.

Gwnaeth hyn fy nigio'n fawr – dywedes i wrth rai ohonyn nhw ond roedden nhw ond yn chwerthin am fy mhen; 'yn dweud fy mod i'n groendenau. Maen nhw mor anaeddfed...

Roedd pethau'n teimlo'n wahanol nawr...efallai...efallai roeddwn i'n mynd yn...dw iddim yn gwybod...a oedd hyn oll yn wir?... allwn i ddim siarad â mam... â phwy oeddwn i'n gallu siarad?

LLAIS DROSODD (athro)

Galla i gofio'r teimlad ges i pan ddarllenes i draethawd Farah ar y nos roedd wedi'i roi i mewn – roedd e'n gymiant o... bwnsh i'r stumog.

Wel, roedd hi erioed wedi bod yn barchus a thawel tuag ata i. Yn fyfyrgar. A roedd y traethawd yn dda; ar y trywydd iawn tan y tudalennau olaf.

Roedd e'n ddig, yn cyhuddo ac yn cynnwys yr hyn y byddwn i'n dweud oedd yn sylwadau ymfflamychol, a anelwyd at adrannau eang o'r gymuned – anffyddwyr; menywod heb briodi; y rhai hynny oedd yn yfed alcohol – heblaw am y cyfryngau. Roedd rhywfaint ohono'n annymunol iawn. Roedd yr iaith yn eithaf gwarthus mewn gwirionedd. A heb unrhyw gyd-destun.

Y bore nesaf ces i sgwrs gyda fy mhennaeth adran er mwyn gwirio fy mhryderon. Dywedodd hi wrtha i am y digwyddiadau llynedd – problemau yn y cartref a rhai problemau â straen – a'i bod hi'n meddwl ei bod yn synhwyrol I mi siarad â'n Dirprwy Prifathro - sef ein Harweinydd Diogelu Dynodedig – yr hyn wnes i amser cinio.

Cytunon ni mai'r peth gorau oedd imi gael sgwrs anffurfiol â'r ferch – "profi'r tymheredd"; er I mi ei wneud yn glir nad oeddwn i'n gallu ateb cwestiynau pe byddai pethau'n mynd ychydig yn rhy ddiwinyddol.

Felly wedi'r dosbarth yr wythnos honno, cafodd Farah a fi ychydig o amser gyda'n gilydd. Dywedes i wrthi hi fy mod i'n hoffi ei thraethawd ond fy mod yn cael bod y diwedd "allan o gymeriad." Fydda i byth yn anghofio beth ddywedodd hi nesaf: "Roeddwn i ond eisiau cael eich sylw."

©Tenboss Ltd. 2016

Roedd hi ar goll: roedd hi'n brwydro i ffitio i mewn – yn ansicr o safbwynt diwylliannol ble roedd hi'n perthyn. Roedd hi ar oedran ble roedd hi'n teimlo bod penderfyniadau'n cael eu gorfodi arni o ddwy ochr...

Dw i'n wir groesawu'r angen hwn i gael atebion yn arbennig mewn myfyrwyr o'i hoedran hi ond roedd hi wedi derbyn rhai syniadau o sgyrsiau ar-lein ac roedd yn amlwg ei bod hi'n cael trafferthion â'r rhain; yn siarad am "glamor" bywyd mewn gwledydd lle mae fy nealltwriaeth o'r gwirionedd yn wahanol iawn.

Roedd yn ymddangos ei bod hi'n hoffi siarad â fi – yn clywed fy marnau – ond roedd yn glir bod angen iddi hi siarad â rhywun a oedd yn gymwys i drafod a hyd yn oed herio ei chanfyddiadau a meddyliau gyda hi yn iawn mewn gwirionedd.

Ac roedd hi'n agored i hynny: Cytunodd hi y gallen ni ddweud wrth ei rhieni ac â'u cydsyniad nhw siaradodd yr arweinydd diogelu â'r awdurdod lleol; fe wnaethon nhw ei hatgyfeirio i fentor i siarad trwy'r pethau hyn. Hefyd fe wnaethon nhw drefnu iddi hi ymgysylltu â grŵp a arweiniwyd gan y gymuned y tu allan i'r ysgol sy'n trafod y materion roedd gan Farah gwestiynau yn eu cylch mewn gofod diogel - yn ei helpu i ganfod pwy ydy hi, a sut y gall hi gyfrannu i'r byd.

Roedd yn alwad amlwg am help, ond pe byddwn i wedi bod yn ddall iddo; neu wedi'i weld felproblem i rywuwn arall...wel, gallai'r canlyniad fod wedi bod yn gwbl wahanol.

.

LLAIS DROSODD

I amddiffyn y bobl hyglwyf mewn cymdeithas rhag radicaleiddio mae angen I chi deimlo'n hyderus wrth weithredu'ch barn broffesiynol a synnwyr cyffredin mewn achlysuron lle gallai ddigwydd, yn union fel y byddech yn ei wneud o dan amgylchiadau eraill lle mae rhywun sy'n dod o dan eich dyletswydd o ofal mewn perygl.

Felly, nid yw hyn yn rhywbeth mae angen I chi fynd i chwilio amdano.

Mae tystiolaeth yn dangos I ni, mewn achosion gwirioneddol mae'r arwyddion o radicaleiddio'n sefyll allan.

Does dim ond angen I chi fod yn glir ar yr hyn i'w wneud nesaf...

MANWAR ALI

Pan yw person yn cael ei radicaleiddio un o'r ffactorau pwysicaf a fydd, efallai, yn arwain y person hwnnw i ffwrdd o'r llwybr mae wedi'i ddewis neu y mae'n ei ystyried, yw her.

KELLY SIMCOCK

Rhaid inni gael dialog, rhaid I ni ymgysylltu â nhw pryd hynny. Heb o angenrheidrwydd ddilysu'r peth negyddol maent yn ei ddweud neu'r datganiad maent wedi'i wneud, ond o leiaf cadarnhau'r unigolyn, eu cadw yn yr ystafell.

©Tenboss Ltd. 2016

Mae llawer o bethau y gallan nhw eu gwneud, a llawer o gyfleoedd y gallan nhw eu cymryd â'r angerdd hwnnw nad ydynt o angenrheidrwydd yn golygu bod angen iddyn nhw gyflawni gweithred eithafol a allai eu rhoi nhw a phobl eraill mewn perygl.

MANWAR ALI

Hyd yn oed yr ysgol, coleg, cydweithwyr, gweithwyr eraill, mae gan bawb rôl i'w chwarae.

KELLY SIMCOCK

Efallai mai'r athro sy'n dod ymlaen i ddweud "mae hynny'n ddiddorol iawn; gadewch I ni siarad am hynny, ond hefyd a ydych chi wedi ei ystyried o'r safbwynt hwn hefyd?" Efallai mai'r teulu cefnogol neu'r rhieni nad ydyn nhw ond yn cau sgwrs i lawr ond sydd mewn gwirionedd yn annog i'r sgwrs honno ddigwydd a sydd eisiau ei agor i fyny.

MANWAR ALI

A'r cyfan rydyn ni'n ceisio ei wneud, pobl fel ni ein hunain, yw agor eu meddyliau. A gwneud iddyn nhw feddwl. Ystyried opsiynau, edrych ar ddewisiadau amgen, dyna'r cyfan rydyn ni'n ei wneud. A gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfrifol, nid yn emosiynol yn unig.

CALLUM/ATHRAWES

LLAIS DROSODD (Callum)

Doedd neb arall yn siarad am fam yn cael y garwriaeth. Felly pam ddylwn i?

Hi yw'r un oedd bron wedi dinistrio ein cartref.

Rwy'n sicr ei fod bron wedi lladd dad. Byddwn i wedi'i thaflu allan o'r tŷ, ond wnaeth e erioed siarad amdano.

O leiaf roedd yn golygu ei fod e wedi anwybyddu'r llythyrau ynghylch canlyniadau fy arholiadau.

Dywedodd fy nhiwtor fy mod i'n taflu fy mywyd i ffwrdd. Dw i'n gwybod bod mwy nag un ffordd i ddod ymlaen mewn bywyd, iawn

Pan stopiodd dad rhag dod i gemau, roeddwn i'n dal i fynd. Weithiau gyda fy ffrind Stu a'i dad, ond weithiau dim ond gyda Stu.

Dyna pryd gwrddes i â Tony a'r rhai eraill yn y prif safle. Gêm wych. Gôl drithro i ennill y gêm..

Aethon nhw â fi i'r dafarn. Prynon nhw ddau beint imi. Am ddiwrnod! Roeddwn i wrth fy modd.

Dechreues i gerdded gyda Tony, Bev a'r rhai eraill i gemau. Bydden nhw'n fy nghael i i mewn i'r George wedyn.

Un diwrnod roedd ffeit. Taflodd rhywun wydryn ar Tony a defnyddies i fy mag i'w wyro. Greddf mewn gwirionedd, ond dywedodd e fy mod i'n arwr iddo! Wel, roedd ofn mawr arna i, ond...dywedodd Tony fy mod i wedi sefyll fel dyn.

©Tenboss Ltd. 2016

Fe wnaethon ni feddwi go iawn y noson honno...!

Fe wnes i decstio dad i ddweud fy mod i'n aros gyda Stu. Pa ots oedd gyda fe?

Yr wythnos honno, fe wnaeth Tony fy ngwahodd i gyfarfod yn yr ystafell lan llofft yn y George. Dechreuodd e ddweud wrtha i sut oedd arno fe rywbeth imi am gamu i mewn fel gwnes i. Dywedodd e wrtha i y gallwn i ymdopi â'r gwirionedd.

Dywedodd e, mae ein gwlad falch yn cael ei gwerthu. Edrychwch o gwmpas. Pan gerddwn ni drwy Ffordd y Gorllewin rydyn ni'n eu gweld nhw i gyd – dydyn nhw ddim yn yfed; dydyn nhw ddim yn ychwanegu unrhyw beth. Mae i gyd yn ymwneud â phriodasau wedi'u trefnu, a'n harian ni i adeiladu mosgau, neu newid y gyfraith er eu budd nhw.

Dywedodd Tony mai ein dewis ni oedd pwy oedd yn byw yn y dref.

Dywedodd e y gallwn i wneud gwahaniaeth. A dw i eisiau.

Byddwn i'n tynnu ein symbol ar fy neunydd. Neu ddeunydd pobl eraill. Yna fy eiddo i oedd e! Roedd pobl yn gwybod ei fod yn golygu rhywbeth. Y dylen nhw ei barchu.

Roedd gwefan gyda ni. Cafodd Tony lawer o ddeunydd I mi ei bostio – roeddwn i fel arweinydd rhanbarthol ar y dudalen. Bydden ni'n postio pan oedd mwslemiaid yn derbyn pethau dros y Saeson; neu pan oedden nhw'n cynllwynio i ymosod arnon ni; pan oedd eu his-ddeddfau'n cael eu pasio gan y cyngor.

Gofynnwyd I mi gael mwy o bobl i hoffi'r dudalen. Dw i erioed wedi bod yn wych wrth ysgrifennu a phethau felly, felly gwnes i fe yn fy ffordd fy hunan: dywedes i wrth bobl am gofrestru. Allen nhw ddim gwrthod: dw i'n fwy na llawer ohonyn nhw.

LLAIS DROSODD (athrawes)

Roeddwn i wedi clywed gan fy nisgyblion bod Callum yn mynd yn digywilydd. Efallai y byddai bygythiol yn ffordd arall o'i ddweud, byth i staff, ond gallech chi weld rhai o'i gyfoedion yn gwneud ymdrech i'w osgoi.

Yna dywedodd myfyriwr wrtha i'n gyfrinachol am y wefan Gwladgarwyr Ifanc yr oedd Callum wedi bod yn ceisio cael pobl eraill i gofrestru arni.

Siarades i ag Alan, ein Prifathro, a hefyd ein Harweinydd Diogelu Dynodedig, a gyda'i ganiatâd edryches i ar y wefan. Doeddwn i dim yn hoffi beth weles i.

Ar unwaith galwon ni Callum i mewn er mwyn siarad ag e gyda'n gilydd.

Dywedodd e wrthon ni ei fod wedi ymuno â grŵp.

Roedd yn amlwg ei fod e wrth ei fodd â'r sylw. Dywedodd e wrthon ni â chyffro yn ei lais am gael ei wahodd i gyfarfodydd grŵp "cyfrinachol" mewn tafarnau cyn ac wedi gemau.

©Tenboss Ltd. 2016

A dyma, roedd yn ymddangos, ble roedd e'n cael ei gyflwyno i farnau eithafol – roedd e'n siarad am fewnfudwyr a ffoaduriaid yn y dref. Rwy'n dweud 'siarad': roedd yn ymddangos bod ganddo'r un ymadroddion stoc roedd e'n eu hailadrodd – heb fod yn gallu ychwanegu llawer arall pan wnaethon ni ei herio amdano.

Roedd hyn yn peri pryder I ni, felly siaradodd Alan â theulu Callum. Fe wnaethon nhw gadarnhau eu bod wedi gweld llai a llai o Callum; ei fod e wedi ymbellhau oddi wrthyn nhw a'i ffrindiau.

Fe wnaethon ni argymell bod Callum yn siarad â chwnselydd yr ysgol. Rhoddodd y rhieini eu cydsyniad.

O'r sesiwn cyntaf roedd yn amlwg nad oedd Callum yn deall beth roedd e'n ei hyrwyddo nag ideoleg y grŵp roedd e wedi ymgysylltu ag ef.

Felly dechreuodd y gwaith gyda'r cwnselydd a fy adran i roi cyd-destun i hanes a chynnwys y ddinas, ei phoblogaeth amrywiol; beth oedd cymunedau gwahanol wedi'i gyflwyno i'r ardal leol.

Yna dechreuodd Callum siarad yn agored am ei bryderon personol – pa mor ofnus oedd e ynghylch dod o hyd i waith wedi gadael yr ysgol. Gymaint o arswyd oedd arno ynghylch gadael ei deulu. Esboniwyd i Callum mai ef oedd yn rheoli ei ddyfodol; ei fod yn amser i roi'r gorau i feio pobl eraill am ei ddiffygion canfyddedig ef.

Fe wnaeth ein rheolwr gyrfaoedd weithio gyda Callum i'w helpu i ystyried ei opsiynau...

A chytunodd Callum I fynychu Grŵp Ieuenctid, yn cymdeithasu gyda'i grŵp oedran ei hunan, a chymysgedd o ethnigrwyddau a chefndiroedd, heb ddylanwad oedolion yn yr ystafell.

A digwyddodd y newid. Tyfodd ei hyder, a gallai weld sut oedd yr hyn roedd yn ei gredu o'r blaen heb resymeg neu reswm. Bod y pethau roedd yn eu dweud yn anghywir.

Ac roeddwn i'n hapus i glywed, yn ôl yn ei gartref, roedd ewythr a chefnder wedi camu i mewn i'w hebrwng i'w gemau pêl-droed annwyl, felly roedd ganddo drefn a modelau rôl, heblaw am y cwlwm teuluol a oedd mor bwysig iddo.

LLAIS DROSODD

I amddiffyn y bobl hyglwyf mewn cymdeithas rhag radicaleiddio mae angen i chi deimlo'n hyderus wrth weithredu'ch barn broffesiynol a synnwyr cyffredin mewn achlysuron lle gallai ddigwydd, yn union fel y byddech yn ei wneud o dan amgylchiadau eraill lle mae rhywun sy'n dod o dan eich dyletswydd o ofal mewn perygl.

Felly, nid yw hyn yn rhywbeth mae angen I chi fynd i chwilio amdano.

Mae tystiolaeth yn dangos I ni, mewn achosion gwirioneddol mae'r arwyddion o radicaleiddio'n sefyll allan.

Does dim ond angen I chi fod yn glir ar yr hyn i'w wneud nesaf...

©Tenboss Ltd. 2016

MANWAR ALI

Pan yw person yn cael ei radicaleiddio un o'r ffactorau pwysicaf a fydd, efallai, yn arwain y person hwnnw i ffwrdd o'r llwybr mae wedi'i ddewis neu y mae'n ei ystyried, yw her.

KELLY SIMCOCK

Rhaid I ni gael dialog, rhaid I ni ymgysylltu â nhw pryd hynny. Heb o angenrheidrwydd ddilysu'r peth negyddol maent yn ei ddweud neu'r datganiad maent wedi'i wneud, ond o leiaf cadarnhau'r unigolyn, eu cadw yn yr ystafell.

Mae llawer o bethau y gallan nhw eu gwneud, a llawer o gyfleoedd y gallan nhw eu cymryd â'r angerdd hwnnw nad ydynt o angenrheidrwydd yn golygu bod angen iddyn nhw gyflawni gweithred eithafol a allai eu rhoi nhw a phobl eraill mewn perygl.

MANWAR ALI

Hyd yn oed yr ysgol, coleg, cydweithwyr, gweithwyr eraill, mae gan bawb rôl i'w chwarae.

KELLY SIMCOCK

Efallai mai'r athro sy'n dod ymlaen i ddweud "mae hynny'n ddiddorol iawn; gadewch I ni siarad am hynny, ond hefyd a ydych chi wedi ei ystyried o'r safbwynt hwn hefyd?" Efallai mai'r teulu cefnogol neu'r rhieni nad ydyn nhw ond yn cau sgwrs i lawr ond sydd mewn gwirionedd yn annog i'r sgwrs honno ddigwydd a sydd eisiau ei agor i fyny.

MANWAR ALI

A'r cyfan rydyn ni'n ceisio ei wneud, pobl fel ni ein hunain, yw agor eu meddyliau. A gwneud iddyn nhw feddwl. Ystyried opsiynau, edrych ar ddewisiadau amgen, dyna'r cyfan rydyn ni'n ei wneud. A gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfrifol, nid yn emosiynol yn unig.

SGRÎN 22:
CAMAU NESAF

Roedd y ddwy astudiaeth achos rydyn ni wedi gweithio gyda nhw wedi'u seilio ar ddigwyddiadau gwirioneddol, gan ddilyn ymateb yr athro ym mhob enghraifft.
Efallai fod gan eich ysgol neu goleg ei pholisi ei hunan ynghylch pwy i wirio neu rannu pryder gyda nhw.

Ar gyfer llawer, y person gorau fydd eich Arweinydd Diogelu Dynodedig, felly gwnewch yn siŵr bod gennych eu manylion cyswllt.
Cofiwch, mae'r perygl o radicaleiddio'n isel iawn ond bydd eich DSL yn gallu canfod y cymorth cywir pan fo angen.

Mewn llawer o achosion canfyddir y cymorth hwnnw'n fewnol.
Ond weithiau, bydd angen chwilio y tu allan i'ch sefydliad am fathau ychwanegol o gymorth, er enghraifft mentora, cwnsela, a chymryd rhan mewn cynlluniau ymgysylltu cymunedol.

©Tenboss Ltd. 2016

Gall y fath gymorth gael ei ddarparu trwy raglen ddiogelu amlasiantaeth o'r enw Sianel, a gadeirir gan yr Awdurdod Lleol.

Ceisir cydsyniad yr unigolyn cyn y gallan nhw dderbyn cymorth gan Sianel, a lle mae'r unigolyn sydd angen cymorth o dan 18, mae cydsyniad rhieni'n ofynnol bob tro.

Cliciwch barhau i wylio fideo fer sy'n esbonio sut mae hyn yn gweithio.

SGRÎN 23:
FIDEO - SIANEL

LLAIS DROSODD

Mae Sianel yn broses ddiogelu amlasiantaeth a fwriedir i gefnogi'r rhai hynny sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio.

Gadewch I ni glywed rhagor amdani gan rai o'r bobl sydd wedi cymryd rhan, y tro hwn lle rhedir y rhaglen gan yr Awdurdod Lleol yn Hammersmith a Fulham, Llundain.

PINAKIN PATEL

Mae'n garfan o arbenigwyr ac ymarferwyr sy'n dod at ei gilydd er mwyn asesu hyglwyfder unigolyn. Ac i benderfynu a oes angen ymyrraeth.

Mae gennym aelodau parhaol o Banel y Sianel, cydweithwyr o wasanaethau cymdeithasol, o'r meysydd iechyd, iechyd meddwl a'r sector addysg, ond hefyd mae gennym gydweithwyr o'r meysydd tai a phrawf ac weithiau rydyn ni'n cael yr asiantaeth ffiniau os yw'r achos yn berthnasol.

Rydyn ni'n asesu'r dystiolaeth o ran hyglwyfder ac os yw'n ddigon difrifol, yn y bôn rydyn ni'n penderfynu pa ymyrraeth sydd ei hangen ond rydyn ni'n cytuno ar hynny fel grŵp.

Felly pethau megis mentora ond hefyd ymgysylltu sy'n cynnwys sefydliadau lleol, grwpiau gwirfoddol. Ac mewn gwirionedd gallai gynnwys eu cysylltu â gwasanaethau lleol presennol megis cymorth cyflogaeth neu ryw fath arall o wasanaeth ehangach. Beth gallwn ni ei wneud yw sicrhau bod pawb sy'n dod at Sianel yn cael ei gysylltu â gwasanaethau lleol eraill, gwasanaethau lleol presennol.

LLAIS DROSODD

Er bod y rhaglen yn cael ei chadeirio a'i rhedeg gan yr awdurdod lleol, mae'r tîm yn gofyn i'r heddlu wirio'r holl atgyfeiriadau a hefyd yn sicrhau bod yr asiantaethau cywir yn mynychu. Mae Craig McCann yn esbonio.

CRAIG MCCANN – Yr Heddlu

Mae gennym rôl o ran nodi a sgrinio atgyfeiriadau yn y lle cyntaf ac yna eu symud nhw ymlaen at banel y sianel. Ac yna ymlaen at reoli'r atgyfeiriad trwy'r broses sianel.

Rydyn ni'n mynd trwy broses sgrinio yn y lle cyntaf ac yn y bôn mae hynny'n cael gwared ar lawer o atgyfeiriadau na ddylen nhw fod yno o gwbl. Rhywbeth fel: gallai fod yn atgyfeiriad maleisus neu gallai fod yn un cyfeiliornus. Efallai mai rhywun nad

©Tenboss Ltd. 2016

oes ganddo unrhyw hyglwyfder dilys i eithafiaeth mewn gwirionedd ydyw, efallai fod hyglwyfder arall a gallen nhw fod yn fwy addas I gael mathau eraill o gymorth.

Fe'i seilir i raddau helaeth ar ein hymagweddau cydweithredol at fathau eraill o droseddu. Ynghylch gynnau, gangiau a throseddu ynghylch cyffuriau. Felly rydyn ni wedi cael blynyddoedd o brofiad yn gwneud hyn, mae hyn ond yn cymhwyso rhywfaint o'r dysg hwnnw i'r amgylchedd gwrthderfysgaeth. Yn y pen draw mae'n cyflwyno pecyn gofal ar gyfer yr unigolyn hwnnw ac i ddelio â'u hyglwyfder.

LLAIS DROSODD

Mae Adam Whitlock yn athro mewn ysgol leol ac yn eistedd ar rai sesiynau panel pan yw'n briodol. Gofynnwyd iddo, sut brofiad yw hynny?

ADAM WHITLOCK – Athro

Yr hyn sy'n wych am hyn yw fy mod i'n gweithio gyda phobl eraill, partneriaid maen nhw wedi'u cynnwys yn y cymysgedd.

Fy nyletswydd i yw sicrhau bod fy myfyrwyr yn cael eu diogelu, sicrhau y gofalir amdanyn nhw'n iawn. Felly mae'n bwysig iawn bod popeth sy'n digwydd yn y cyfarfod hwnnw er budd y myfyrwyr. A mae'n sicr bod hynny'n wir, mae pawb sydd yno eisiau gofalu am eu buddiannau gorau ac i ddiogelu, os mynnwch chi, fudd y myfyriwr hwnnw.

Felly mae hynny'n golygu, chi'n gwybod, yn fy achos i mae'r myfyriwr yn gwbl ymwybodol fy mod i'n cydgysylltu â phobl y tu allan i'r ysgol.

Yn y lle cyntaf, roeddwn I'n tybio a fyddai hyn yn hynod anodd, ond doedd e ddim fel 'na o gwbl, mae'r rhain yn bobl sydd â swyddi yn union fel fi. Swyddi mewn sefyllfaoedd o ymddiriedaeth, cyfrifoldeb, maen nhw eisiau gofalu, maen nhw eisiau helpu.

Pan ydw i wedi mynd i mewn i lawer o'r cyfarfodydd hyn ynghylch nifer wahanol o fyfyrwyr yn y gorffennol dw i erioed wedi ei chael fel proses dwy ffordd. Dydy'r cadeirydd ddim yn mynd i wneud penderfyniad y bydda i'n anghytuno ag e oherwydd ei fod yn cael ei seilio ar y berthynas, mae'n cael ei seilio ar gydweithredu a beth dw i'n eu hysbysu yn ei gylch. A beth maen nhw'n rhoi cyngor i fi yn ei gylch.

LLAIS DROSODD

Mae Sianel yn rhaglen wirfoddol. Nid yw'n sancsiwn troseddol neu sifil.
Mae'n gyfrinachol.

Nid yw'r unigolyn yn bresennol yn y cyfarfod panel.

A fydd yr atgyfeiriad neu gymryd rhan mewn cymorth a gynigir ddim yn dangos ar unrhyw wiriadau nag yn effeithio'n negyddol ar ddyfodol unigolion mewn unrhyw ffordd.

Trafodir data Sianel yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

©Tenboss Ltd. 2016

Dylai ysgolion drafod unrhyw bryderon ynghylch diogelu mewn cysylltiad â radicaleiddio gyda rhieni'r plentyn, oni bai fod ganddyn nhw reswm penodol i beidio â gwneud hynny.

Mae'n rhaid ceisio cydsyniad gan rieni cyn bod unrhyw ymyriadau o dan Sianel yn cychwyn.

©Tenboss Ltd. 2016

SGRÎN 24:
CRYNODEB

Mae hyn ynn cwblhau'r pecyn dysgu.

Mae dolenni ar y sgrîn i ragor o wybodaeth os oes ei hangen arnoch.

Yn olaf, gofynnir I chi ateb 3 chwestiwn adborth, cliciwch barhau isod.

Diolch yn fawr am eich amser a mewnbwn.

SGRÎN 25:

Diolch

Os hoffech chi gael tystysgrif fel prawf o gwblhau'r pecyn hwn, cliciwch y ddolen isod.
Gofynnir ichi am eich enw er mwyn cyhoeddi'r dystysgrif.
Nodwch na chedwir y data hwn.
Mae dolenni ar y sgrîn i ragor o wybodaeth os oes ei hangen arnoch.

©Tenboss Ltd. 2016